



QAA

Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

MAWRTH 2008

Adolygiad sefydliadol

RG 386 07/08

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2007

ISBN 978 1 84482 858 6

Mae holl gyhoeddiadau'r ASA ar gael ar ein www.qaa.ac.uk

Gallwch gael copïau mewn print o gyhoeddiadau cyfredol o:

Linney Direct

Adamsway

Mansfield

NG18 4FN

Ffôn 01623 450788

Ffacs 01623 450481

Ebost qaa@linneydirect.com

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Rhagair

Pwrpas yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA) yw diogelu diddordeb y cyhoedd mewn cymwysterau addysg uwch (AU) o safon gadarn ac annog gwelliant parhaus yn y ffordd y mae ansawdd AU wedi'i reoli.

I wneud hyn, mae'r ASA yn gwneud adolygiadau o sefydliadau AU unigol (prifysgolion a cholegau AU). Yng Nghymru, rydym yn adnabod y broses hon fel adolygiad sefydliadol. Mae'r ASA yn gweithredu prosesau tebyg, ond ar wahân, yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Pwrpas adolygiad sefydliadol

Amcan adolygiad sefydliadol yw diwallu'r angen sydd gan y cyhoedd am gael gwybod yn sicr bod prifysgolion a cholegau yn:

- darparu cymwysterau a dyfarniadau AU o ansawdd derbyniol ac o safon academaidd briodol
- arfer eu galluoedd cyfreithiol i ddyfarnu graddau yn y ffordd gywir.

Barn yr adolygiad

Mae adolygiad sefydliadol yn rhoi barn am y sefydliadau y mae'n eu hadolygu. Mae'n rhoi barn am:

- ba mor hyderus y gallwch fod o gadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd ei raglenni a safonau academaidd ei ddyfarniadau.
- faint y gallwch ddibynnu'n rhesymol ar gywirdeb, cyfanrwydd a gonestrwydd yr wybodaeth y mae'r sefydliad yn ei chyhoeddi, ac ar ansawdd ei raglenni a safonau ei ddyfarniadau.

Mae'r adolygiad yn mynegi eu barn fel naill ai hyderus, hyder cyfyngedig neu ddim hyder ac mae'n rhoi esiamplau o arferion da ac argymhellion ar gyfer gwella.

Safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol

Mae adolygiad sefydliadol yn defnyddio cyfres o bwyntiau cyfeirio y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, sy'n dwyn y teitl 'Seilwaith Academaidd', i ystyried safonau ac ansawdd sefydliad. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi gan yr ASA ac maen nhw'n cynnwys:

- *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) sy'n cynnwys disgrifiadau o wahanol gymwysterau AU*
- *Y Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch*
- datganiadau meincnod pynciau, sy'n disgrifio nodweddion graddau mewn gwahanol bynciau
- canllawiau ar gyfer paratoi manylebau rhaglenni, sef disgrifiadau o'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr mewn rhaglenni astudio unigol. Maen nhw'n amlinellu pa wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth a nodweddion fydd gan fyfyrwr sy'n cwblhau'r rhaglen honno'n llwyddiannus. Maen nhw hefyd yn rhoi manylion y dulliau addysgu ac asesu ac yn cysylltu'r rhaglen gyda'r FHEQ.

Y broses adolygu

Mae timau o bobl academaidd yn gwneud yr adolygiadau sefydliadol ac maen nhw'n adolygu'r ffordd y mae sefydliadau'n goruchwyllo eu safonau a'u hansawdd academaidd. Am eu bod nhw'n gwerthuso eu cymheiriad, enw'r broses yw 'adolygiad cymheiriol'.

Dyma brif elfennau adolygiad sefydliadol:

- ymweliad cyntaf gan yr ASA â'r sefydliad naw mis cyn yr ymweliad adolygu
- dogfen hunan-werthusiad wedi'i chyflwyno gan y sefydliad bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu
- cyflwyniad ysgrifenedig gan gorff cynrychioli'r myfyrwyr, os ydynt wedi dewis gwneud un, bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu
- ymweliad briffio manwl â'r sefydliad gan y tîm adolygu bum wythnos cyn yr ymweliad adolygu
- yr ymweliad adolygu, sy'n para pum diwrnod
- cyhoeddi adroddiad ar farn a chanfyddiadau'r tîm adolygu 22 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu.

Y dystiolaeth ar gyfer yr ymweliad

Er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth ar gyfer ei feirniadaeth, mae'r tîm adolygu'n gwneud nifer o bethau, yn cynnwys:

- adolygu dogfennau a threfnau mewnol y sefydliad ei hun, megis rheoliadau, datganiadau polisi, codau ymarfer, cyhoeddiadau recriwtio a chofnodion cyfarfodydd perthnasol, yn ogystal â'r ddogfen hunan-werthuso ei hun
- adolygu'r cyflwyniad ysgrifenedig gan y myfyrwyr
- gofyn cwestiynau i staff perthnasol
- siarad â myfyrwyr am eu profiadau
- archwilio sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r Seilwaith Academaidd.

Mae'r tîm adolygu hefyd yn casglu dystiolaeth drwy ganolbwyntio ar esiamplau o brosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad ar waith gan ddefnyddio 'llwybrau thematig'. Gall y llwybrau yma ganolbwyntio ar ba mor dda mae prosesau sefydliadol yn gweithio mewn lleoliadau arbennig a thrwy'r sefydliad yn gyffredinol.

Rhaid i sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd a safonau eu rhaglenni a'u dyfarniadau mewn fformat sydd wedi'i argymhell yn y ddogfen 04/05 *Gwybodaeth am ansawdd a safonau mewn addysg uwch*, sydd wedi'i chyhoeddi gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cynnwys

Crynodeb	1
Cyflwyniad	1
Canlyniad yr adolygiad	1
Nodweddion arfer da	1
Argymhellion ar gyfer gweithredu	1
Cyferbwyntiau Cenedlaethol	2
Y Prif Adroddiad	3
Adran 1: Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	3
Y sefydliad a'i genhadaeth	3
Datganiad Cenhadaeth	4
Darpariaeth gydweithredol	4
Gwybodaeth Gefndirol	5
Y Broses Adolygu	5
Datblygiadau ers yr adolygiad ansawdd academiaidd blaenorol	6
Adran 2: Ymchwiliadau'r adolygiad – prosesau sefydliadol	7
Fframwaith rheoli ansawdd a safonau gan gynnwys darpariaeth gydweithredol y sefydliad	7
Bwriadau'r sefydliad ar gyfer gwella ansawdd a safonau	8
Prosesau cymeradwyo, monitro ac adolygu mewnol	9
Cyfranogaeth allanol mewn prosesau adolygu mewnol	12
Asiantaethau allanol yn adolygu ac yn achredu lefel rhaglen	12
Arferion a threfnau asesu	12
Arholwyr allanol a'u hadroddiadau	14
Ystadegau datblygu a chwblhau	15
Cyferbwyntiau allanol	16
Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel weithredol a sefydliadol	17
Adborth oddi wrth fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr	19
Trefnau ar gyfer cwynion ac apeliadau myfyrwyr	20
Sicrwydd ansawdd staff addysgu, penodi, gwerthuso a gwobrwyo	21
Sicrwydd o ansawdd addysgu drwy gefnogaeth a datblygiad staff	22
Sicrwydd o ansawdd yr addysgu a gyflenwir drwy ddulliau gwasgaredig ac o bell	23
Adnoddau cefnogi dysgu	24
Arweiniad, cefnogaeth a goruchwyliaeth academiaidd	25
Cefnogaeth a chyfarwyddyd personol	26
Darpariaeth gydweithredol	27

Adran 3: Ymchwiliadau'r adolygiad – gwybodaeth gyhoeddedig	31
Profiad myfyrwyr o wybodaeth gyhoeddedig a gwybodaeth arall sydd ar gael iddynt	31
Dibynadwyedd, cywirdeb a chyflawnrwydd gwybodaeth gyhoeddedig	31
Casgliadau	33
Effeithlonrwydd trefnau sefydliadol i sicrhau ansawdd rhaglenni	33
Effeithlonrwydd trefnau sefydliadol ar gyfer sicrhau safon gwobrau	34
Effeithlonrwydd trefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu	34
Sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r Seilwaith Academaidd?	35
Defnyddio'r ddogfen hunan-werthusiad (SED) fel darlun o allu'r sefydliad i ystyried ei gryfderau a'i gyfyngiadau ei hun, a gweithredu ar y rhain er mwyn gwella ansawdd a safonau	36
Sylwadau ar fwriadau'r sefydliad i wella ansawdd a safonau	36
Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth	36
Nodweddion o arfer da	37
Argymhellion ar gyfer gweithredu	37
Atodiad	38
Ymateb Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd i adroddiad yr adolygiad sefydliadol	38

Crynodeb

Cyflwyniad

Ymwelodd tîm o arolygwyr o'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) â Sefydliad Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC) o 10 i 14 Mawrth 2008 i gynnal adolygiad sefydliadol. Amcan yr adolygiad oedd darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ansawdd y cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr ac am safonau academiaidd y gwobrau y mae UWIC yn eu cynnig.

Cyn cyrraedd eu casgliadau, siaradodd y tîm adolygu gydag aelodau staff UWIC a gyda chynrychiolwyr myfyrwyr. Hefyd, darllenwyd amrediad eang o ddogfennau am y modd mae UWIC yn rheoli agweddau academiaidd ei ddarpariaeth.

Defnyddir y geiriau 'safonau academiaidd' i ddisgrifio'r lefel cyrhaeddiad y dylai myfyriwr ei chyflawni er mwyn ennill gwobr (gradd, er enghraifft). Dylai hyn fod yn lefel gyffelyb ar draws y Deyrnas Unedig (DU).

Mae ansawdd academiaidd yn fodd i ddisgrifio pa mor llwyddiannus y mae'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr yn eu hybu i gyflawni'r wobr. Mae hyn yn golygu sicrhau bod yr addysgu, y cymorth, yr asesu a'r cyfleoedd dysgu priodol yn cael eu darparu ar eu cyfer.

Mewn adolygiad sefydliadol, adolygir safonau academiaidd ac ansawdd academiaidd fel ei gilydd.

Canlyniad yr adolygiad

O ganlyniad i'w archwiliadau, barn y tîm adolygu am UWIC yw:

- gellir bod yn hyderus yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad, a'i reolaeth debygol yn, rheolaeth ansawdd ei rhaglenni yn y dyfodol ac yn safonau academiaidd y gwobrau cysylltiol.

Nodweddion arfer da

Nododd y tîm adolygu'r meysydd canlynol fel rhai ag arfer da:

- y trefniadau i dynnu uwch swyddogion at ei gilydd ar draws y sefydliad i hyrwyddo cysondeb ac i gyfrannu tuag at sefydlogi gwelliant
- cyflwyno a datblygu system effeithiol o gynrychiolwyr ysgolion i wella'r cyfathrebu â myfyrwyr a'u cynnwys
- creu cymuned o gwmpas FE2HE-UWIC i gyfoethogi profiad myfyrwyr addysg uwch mewn colegau sy'n bartneriaid.

Argymhellion ar gyfer gweithredu

Mae'r tîm adolygu'n argymhell i'r sefydliad:

- sicrhau bod adborth am asesiadau'n cyrraedd myfyrwyr mewn modd eglur, cyson a phrydlon

- adolygu a diwygio'r broses o fonitro rhaglenni'n flynyddol i sicrhau eu bod yn gyson gadarn ac effeithiol
- roi blaenoriaeth i ddatblygu systemau gwybodaeth i reolwyr newydd a phrosesau cysylltiol i hyrwyddo monitro data myfyrwyr ar bob lefel yn gywir a phrydlon
- barhau i ddatblygu trefniadau sy'n sicrhau goruchwyliaeth sefydliadol effeithiol, ac arfer cyson, ym mhob agwedd o ddarpariaeth gydweithredol
- adolygu a diwygio'r prosesau sy'n sicrhau ansawdd parhaol a'r safonau a achredwyd gan UWIC.

Mae'r tîm adolygu'n ystyried y buasai'n ddymunol petai'r sefydliad:

- yn datblygu ymagweddau mwy cyson tuag at gynnwys myfyrwyr a chyflogwyr yn ffurfiol wrth ddylunio, dilysu ac adolygu rhaglenni.

Cyferbwyntiau cenedlaethol

I sicrhau mwy o dystiolaeth i gefnogi eu canfyddiadau, bu'r tîm adolygu hefyd yn ymchwilio i'r defnydd a wnaed gan UWIC o'r Seilwaith Academaidd a ddatblygwyd gan ASA ar ran y sector addysg uwch dros y DU i gyd. Mae'r Seilwaith Academaidd yn set o gyferbwyntiau y cytunwyd arnyn nhw i helpu i ddiffinio arfer da a safonau academaidd fel ei gilydd. Mae canfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu bod y sefydliad, at ei gilydd, wedi rhoi ystyriaeth i amcanion y cyferbwyntiau ac wedi myfyrio ar ei arferion. Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu rai pynciau'n ymwneud â'r *Cod Ymarfer, Adran 2: y Ddarpariaeth gydweithredol a dysgu gwasgaredig a hyblyg (gan gynnwys e-ddysgu)*, a'r defnydd o feincnodau pwnc perthnasol mewn un rhaglen arbennig.

Y Prif Adroddiad

Adran 1: Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

1 Cynhaliwyd adolygiad sefydliadol o Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC) rhwng 10 a 14 Mawrth 2008. Amcan yr adolygiad oedd darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ansawdd a safonau rhaglenni astudio UWIC sy'n arwain at wobrau academaidd gan Brifysgol Cymru.

2 Cynhaliwyd yr adolygiad trwy ddefnyddio proses a ddatblygwyd gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) mewn partneriaeth â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). I sefydliadau yng Nghymru, mae'n cymryd lle'r broses flaenorol o archwilio parhad a wnaed gan ASA ar gais Prifysgolion y DU a Chynhadledd Sefydlog y Prifathrawon. Mae adolygu sefydliadol hefyd yn cymryd lle asesiadau ac ymrwymadau'n ymwneud ag ansawdd a safonau'r ddarpariaeth ar lefel pwnc. CCAUC oedd yn cynnal yr asesiadau a ASA yn delio â'r ymrwymadau ar ran CCAUC fel rhan o ddyletswydd statudol CCAUC i asesu ansawdd yr addysg y mae'n ei hariannu.

3 Gwiriodd yr adolygiad effeithlonrwydd drefnau UWIC ar gyfer sefydlu a chynnal safonau gwobrau academaidd Prifysgol Cymru; i adolygu a gwella ansawdd y rhaglenni astudio sy'n arwain at y gwobrau hynny ac i gyhoeddi gwybodaeth ddibynadwy.

Y sefydliad a'i genhadaeth

4 Ffurfiwyd y sefydliad a adnabyddir bellach fel UWIC ym 1976 fel Sefydliad Addysg Uwch De Morgannwg gan gyfuno pedwar coleg. Ym 1990 newidiodd ei enw i Sefydliad Addysg Uwch Caerdydd, ac ar 1 Ebrill 1992 daeth yn Gorfforaeth Addysg Uwch ac yn Sefydliad Cysylltiol Prifysgol Cymru. Ym 1993 cafodd bwerau gan y Cyfrin Gyngor i ddyfarnu graddau wedi'u haddysgu. Ym 1996, derbyniwyd UWIC fel aelod llawn o Brifysgol Cymru, fel Coleg y Brifysgol. Yn 2004, daeth UWIC yn Sefydliad Cyfansoddol ym Mhrifysgol Cymru. Yn 2007, yn dilyn cyfnod o drawsnewid, newidiodd Prifysgol Cymru o fod yn ffederasiwn i fod yn gydffederasiwn lle caiff sefydliadau 'achrediad' gan Brifysgol Cymru i ddyfarnu'u graddau. Fel Sefydliad Achrededig Prifysgol Cymru, mae UWIC yn cadw'n anweithredol ei bwerau i ddyfarnu graddau wedi'u haddysgu ei hunan, ac, o ganlyniad, mae rhaglenni gradd yn arwain at wobrau Prifysgol Cymru.

5 Yng nghyfnod yr adolygiad, roedd UWIC yn gweithredu dan fodel datganoledig sicrhau ansawdd Prifysgol Cymru, sy'n golygu bod ganddo gyfrifoldeb datganoledig dros ansawdd a safonau graddau wedi'u haddysgu. Mae UWIC hefyd yn anelu at sicrhau pwerau dyfarnu graddau ymchwil. Ar hyn o bryd, ar gyfer graddau ymchwil, mae Prifysgol Cymru'n penodi aseswr sy'n monitro trefnau sicrhau ansawdd UWIC ac yn adrodd yn ôl i Brifysgol Cymru.

6 Mae UWIC bellach yn gweithredu ar bedwar campws addysgu o fewn dinas Caerdydd. Mae'r weinyddiaeth ganolog, Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd a rhan o Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd wedi'u lleoli ar Gampws Llandaf, ynghyd â Chanolfan Genedlaethol Dylunio Cynnyrch ac Ymchwil Datblygu. Mae Ysgol Addysg Caerdydd, Ysgol Chwaraeon Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr UWIC wedi'u lleoli ar Gampws Cyncoed; Ysgol Reolaeth Caerdydd ar hyn o bryd wedi'i lleoli ar Gampws Colchester Avenue; ac Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd wedi'i lleoli ar Gampws Howard Gardens yng nghanol y ddinas.

7 Yn Hydref 2007, cofrestrwyd 10,360 o fyfyrwyr yn UWIC, ac o'r rhain roedd 72.5 y cant yn llawn amser. Roedd saith deg tri y cant o'r myfyrwyr yn astudio ar raglenni israddedig, 23 y cant ar raglenni ôl raddedig wedi'u haddysgu a 2 y cant ar raglenni gradd ymchwil. Diffiniwyd 87 y cant o'r myfyrwyr yn rhai Cartref/Undeb Ewropeaidd at bwrrpas ffioedd ac 13 y cant yn rhai tramor. Mae UWIC yn cyflogi 1,100 o staff cyfatebol i lawn amser, ac o'r staff cyfatebol i lawn amser hyn mae 407 yn staff academiaidd, 660 yn staff cefnogi a 33 yn staff rheoli.

8 Daeth strwythur ysgolion newydd i rym ar 1 Awst 2006 gyda'r bwriad o hyrwyddo cydlynad academiaidd a mas critigol a hyrwyddo datblygiadau rhyngdisgyblaethol. Mae pum ysgol a chanolfan ymchwil ac ymgynghori un pwrpas, y Ganolfan Genedlaethol Dylunio Cynnyrch ac Ymchwil Datblygu. Yr ysgol fwyaf yw Ysgol Reolaeth Caerdydd a'r lleiaf yw Ysgol Chwaraeon Caerdydd. Yr ysgolion eraill yw Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, Ysgol Addysg Caerdydd ac Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd.

9 Mae'r rhan fwyaf o raglenni wedi'u haddysgu UWIC ar lefel israddedig a gradd ôlraddedig wedi'i haddysgu ond mae rhai cynlluniau HND/HNC yn parhau o'r dyddiau pan oedd portffolio llawer ehangach o raglenni islaw gradd. Mae UWIC hefyd yn cynnig nifer bychan o Raddau Sylfaen.

Datganiad cenhadaeth

10 Cenhadaeth UWIC yw:

'darparu cyfleoedd dysgu myfyrwyr – ganolog sy'n hygyrch, hyblyg, cynhwysol, gydol oes ac o'r safon uchaf; darparu diwylliant lle gall ymchwil cymhwysol a menter ffynnu; datblygu canolfannau rhagoriaeth sefydledig a rhai newydd mewn addysg broffesiynol, ymchwil cymhwysol a throsglwyddiad gwybodaeth; darparu gwasanaethau sy'n cwrdd â gofynion Cymru a chymunedau ehangach trwy weithio mewn partneriaeth gyda chyrff dinesig, cenedlaethol a rhyngwladol'.

11 Dywed y Cynllun Strategaeth Gorfforaethol 2007-2011 mai amcanion strategol UWIC yw:

- cyflawni blaenoriaethau academiaidd allweddol (sef datblygu a chyflawni dysgu, addysgu ac asesu o safon uchel, datblygu a chydlynu'r diwylliant ymchwil; datblygu cymuned ôlraddedig fywiog, adolygu a diwygio'r portffolio academiaidd
- gwella'r uniad rhwng galluoedd staff a gofynion sefydliadol
- atgyfnerthu safle marchnad UWIC
- ar ôl ennill pwerau dyfarnu graddau ymchwil, ennill teitl prifysgol.

Darpariaeth gydweithredol

12 Ers 2002, mae UWIC wedi bod yn datblygu'n ddyfal ei bortffolio o raglenni cydweithredol gydag amrediad o gyrff sy'n bartneriaid yng Nghymru, mewn mannau eraill yn y DU a thramor. Gwnaed penderfyniad strategol i ddileu'r ddarpariaeth addysg bellach y tu hwnt i'r Consortiwm FE2HE ffurfiol ac ymestyn y ddarpariaeth ôlraddedig wedi'i haddysgu; mae'r portffolio'n dal i ddatblygu. Gwnaed adolygiad

mewnol o'r ddarpariaeth gydweithredol yn Ionawr 2007 (gweler isod, paragraffau 123 a 124).

13 Yn Hydref 2007, roedd cyfanswm o 816 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar raglenni cydweithredol UWIC, 678 yn y DU a 138 arall dramor. Roedd y myfyrwyr ar raglenni cydweithredol yn y DU yn cynnwys – wyth yng Ngholeg y Barri (Graddau Sylfaen), 154 yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr (HNC/HND, Graddau Sylfaen a BA (Anrh.)), 21 yng Ngholeg Llandrillo (Graddau Sylfaen), 64 yn Ystrad Mynach (HNC), 414 yn Ysgol Fasnach Llundain (BA (Anrh.), MSc ac MBA), a 17 yn yr Alban (Tystysgrif mewn Metroleg Cyfreithiol). O ran rhaglenni cydweithredol tramor, roedd 61 myfyriwr yn Sefydliad Rheolaeth EASB (BA (Anrh.) a MBA), wyth yn Uwch Goleg Limerick, Iwerddon (Diploma), saith yng Nghanolfan Rheolaeth a Thechnoleg Gwybodaeth Asia, Bangladesh (BA (Anrh.)), 24 ym Mhrifysgol Hong Kong (MSc), a 28 yng Ngholeg Dimitris Perrotis, Gwlad Groeg (Graddau Sylfaen a BSc (Anrh.)).

Gwybodaeth gefndirol

14 Roedd y wybodaeth wedi'i chyhoeddi oedd ar gael i'r adolygiad hwn yn cynnwys:

- gwybodaeth ar wefan UWIC
- yr adroddiad archwiliad parhad blaenorol gan ASA, a gyhoeddwyd yn 2002
- gwybodaeth ar wefannau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Gwasanaeth Mynediad i Brifysgolion a Cholegau, Cyfleoedd Addysg Uwch ac Ymchwil yn y DU, a CCAUC.

15 Hefyd derbyniodd y tîm adolygu:

- ddogfen hunanwerthuso sefydliadol
- gyflwyniad sefydliadol wedi'i ysgrifennu gan fyfyrwyr
- adroddiad heb ei gyhoeddi am yr adolygiad o raglenni graddau ymchwil a gynhaliwyd yn 2006 gan ASA ar ran CCAUC
- Adroddiad Cynnydd heb ei gyhoeddi a baratowyd gan UWIC yn 2006 ar y dilyniant i adolygiad sefydliadol 2002.

16 Yn ystod ei ymweliad, cafodd y tîm adolygu fynediad at fewnrwyd UWIC ac at amrediad o ddogfennau mewnol.

Y broses adolygu

17 Talodd ASA ymweliad paratoadol â'r sefydliad yng Ngorffennaf 2007 i drafod agweddau ymarferol yr adolygiad. Derbyniodd ASA y ddogfen hunan-werthuso yn Rhagfyr 2007.

18 Ymwelodd y tîm adolygu ag UWIC o 6 i 8 Chwefror 2008 i archwilio, ar y cyd gyda'r Is-Ganghellor, aelodau uwch y staff a chynrychiolwyr myfyrwyr, materion yn ymwneud â rheoli ansawdd a safonau oedd yn codi o'r ddogfen hunanwerthuso a dogfennau eraill a ddarparwyd ar gyfer y tîm. Yn ystod yr ymweliad briffio, nododd y tîm nifer o themâu ar gyfer yr ymweliad adolygu a pharatowyd rhaglen o gyfarfodydd wedi'i chytuno gydag UWIC.

19 Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 10 a 14 Mawrth 2008 ac roedd yn cynnwys cyfarfodydd eraill gyda staff UWIC. Aelodau'r tîm adolygu oedd yr Athro M Carswell, Mr A Hunt, yr Athro C Park, yr Athro G Taylor, a T Platt, Ysgrifennydd yr Adolygiad. Cydlynwyd yr adolygiad ar ran ASA gan Dr J Ellis, Is-Gyfarwyddwr, Grŵp Adolygiadau.

Datblygiadau ers yr adolygiad ansawdd academiaidd blaenorol

20 Crynhodd y ddogfen hunanwerthuso'r datblygiadau pennaf ers Adolygiad Sefydliadol 2002, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- cwblhau ailwampio'r fframwaith credydu
- adolygiad fframwaith polisi UWIC yn 2006-07
- datblygu canolfannau dysgu ar ddau gampws ac adeiladu/uwchraddio rhai manau addysgu
- ailwampio'r flwyddyn academiaidd
- ailwampio'r strwythur academiaidd (naw ysgol yn bump)
- creu swyddi uwch staff newydd
- ailwampio strwythur y pwyllgorau
- ailwampio'n sylweddol y rhaglenni a phrosesau'r ddarpariaeth gydweithredol
- sefydlu Canolfan Gwella Ansawdd
- datblygiadau yn y ddarpariaeth iaith Gymraeg
- adnewyddu'n gyson y Marc Siarter am Ragoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus.

21 Penderfynodd y tîm adolygu fod UWIC yn dangos cynnydd anwastad wrth drin argymhellion adroddiad archwilio parhad 2002, fel y cadarnhawyd yn Adolygiad Cynnydd 2006. Er enghraifft, mae lle i fwy o gynnydd o ran '...llunio a gweithredu canllawiau asesu ...' (gweler isod, paragraff 54) ac 'adolygiad y ddarpariaeth gydweithredol' (gweler isod, paragraff 133) a bod UWIC wedi bod yn araf yn 'adolygu'r broses adolygu ysgolion arfaethedig...'. Hefyd roedd y tîm adolygu yn teimlo y gallai UWIC fod wedi gwneud mwy o gynnydd ers 2002 o ran 'gwella ei system wybodaeth i reolwyr i sicrhau bod data perthnasol i gyrsiau'n hygyrch iawn er mwyn paratoi adroddiadau cwrs blynyddol' (gweler isod, paragraff 65).

22 Roedd adolygiad ASA o raglenni graddau ymchwil yn UWIC (2006) yn tynnu sylw at y system gynrychiolaeth i fyfyrwyr ymchwil. Canfu'r tîm adolygu fod UWIC wedi delio'n effeithiol gyda'r mater o 'ymestyn y system gynrychiolaeth i fyfyrwyr [ymchwil] i'w gwneud yn fwy cadarn' (gweler isod, paragraff 72).

23 Roedd y tîm adolygu'n cydnabod bod UWIC wedi gwneud cynnydd, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wrth ddelio â llawer o feysydd a nodwyd yn adroddiad adolygiad 2002 ond yn nodi bod amryw o bynciau a godwyd yn yr adroddiad blaenorol heb eu trin mewn modd amserol. Felly, mae'r tîm adolygu'n credu bod gan UWIC dipyn o ffordd i fynd i sicrhau bod ei holl systemau sicrhau ansawdd a gwelliant wedi'u datblygu a'u sefydlu'n llawn.

Adran 2: Ymchwiliadau'r adolygiad – prosesau sefydliadol

Fframwaith rheoli ansawdd a safonau gan gynnwys darpariaeth gydweithredol y sefydliad

24 O fewn model sicrwydd ansawdd datganoledig Prifysgol Cymru (gweler uchod, paragraff 5), mae cyfrifoldeb ffurfiol dros ansawdd a safonau'n gorffwys gyda Bwrdd Academaidd UWIC. Mae'r Bwrdd Academaidd yn dirprwyo cyfrifoldeb am ansawdd a safonau i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd, y Bwrdd Dysgu ac Addysgu a'r Bwrdd Ymchwil a Menterau. Mae cyfrifoldeb dros ansawdd a safonau ar lefel ysgol yn gorffwys gyda'r tîm rheoli a chynllunio ysgolion perthnasol. Mae'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu a'r Bwrdd Ymchwil a Menter yn cael eu hefelychu o fewn ysgolion gan Bwyllgor Dysgu ac Addysgu a Phwyllgor Ymchwil a Menter.

25 Mae gan bob ysgol Gyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu sy'n gyfrifol am ansawdd a safonau o safbwynt rhaglenni a addysgir. Mae gan y Tîm Rheoli a Chynllunio gyfrifoldeb cyffredinol dros ansawdd a safonau o fewn pob ysgol ac mae'n cael ei gefnogi yn y broses hon gan y Bwrdd Dysgu ac Addysgu yn yr ysgol a chyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cofrestrydd Cynorthwyol (Systemau Ansawdd) sy'n arwain yr Uned Systemau Ansawdd. Ar lefel rhaglen, mae gan y Pwyllgor Rhaglenni nifer o brif swyddogaethau gan gynnwys monitro, adolygu a gwerthuso rhaglen a gweithredu rheoliadau a threfnau UWIC.

26 Mae'r Llawlyfr Academaidd ar gael ar lein i'r holl staff a myfyrwyr ac mae'n cynnwys y rheoliadau, trefnau a chyfarwyddyd academaidd. Mae'r Llawlyfr yn cael ei ddiweddarau drwy Grŵp Adolygu'r Llawlyfr Academaidd sy'n argymhell diweddariadau i'r Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig a'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd ar sail awgrymiadau oddi wrth fyrdau, pwyllgorau, timau rhaglenni a/neu ddarlithwyr unigol ffurfiol. Yn dilyn cymeradwyaeth, adroddir am newidiadau i'r Bwrdd Academaidd a'u cyhoeddi i'r holl staff gan y Deon Ansawdd Safonau. Y Llawlyfr terfynol yw'r fersiwn sydd ar gael ar lein ac anogir staff a myfyrwyr i ddefnyddio hwn fel eu ffynhonnell ddechreuol. Hefyd, mae'r Grŵp Cynllunio Adolygu Sefydliadol, dan gadeiryddiaeth y Deon Ansawdd a Safonau'n trefnu i sicrhau bod holl brosesau a threfnau UWIC yn parhau i weithio'n gyson ar draws y sefydliad ac yn unol ag egwyddor y Cod ymarfer ar gyfer sicrwydd ansawdd a safonau academaidd mewn addysg uwch (Cod ymarfer) a gyhoeddir gan ASA.

27 Mae'r ddogfen hunan-werthuso'n dweud bod darpariaeth gydweithredol yn ddibynnol ar yr un gofynion sicrwydd ansawdd â rhaglenni cartref gyda rhai gofynion ychwanegol. Roedd uwch staff mewn cyfarfod gyda'r tîm adolygu'n egluro bod gofyn ychwanegol am ddilysu'n wiriad diwydrwydd dyladwy gan y partner cydweithredol arfaethedig. Mae'r Llawlyfr Academaidd sy'n cynnwys adran ar wahân ar gyfer darpariaeth gydweithredol yn rhoi manylion y trefnau a'r gofynion amrywiol. Roedd y tîm yn nodi rhai arferion da yn y modd y mae UWIC yn gweithio gyda grŵp bychan o sefydliadau addysg bellach (gweler isod, paragraff 130) ond hefyd yn nodi rhai agweddau o ddarpariaeth gydweithredol lle'r oedd gwahaniaethau oddi wrth y *Cod ymarfer* (gweler isod, paragraff 66) a lle'r oedd cydsynio gyda phartner cydweithredol heb ei fonitro a'i gyflawni (gweler isod, paragraff 133).

28 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod fframwaith priodol yn bodoli ar gyfer rheoli ansawdd a safonau a bod y staff yn gyffredinol yn deall hwn yn dda. Fodd bynnag, roedd agweddau o'r fframwaith a allai weithio'n well. Roedd y tîm yn ystyried y byddai mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r strwythur pwyllgorau fel trefn i rannu materion ac ehangu ymwybyddiaeth a phrofiad staff, yn fuddiol. Roedd y tîm hefyd yn ystyried bod angen mwy o sicrwydd ar lefel sefydliadol fel bod trefnau y cytunwyd arnyn nhw'n cael eu dilyn yn gyson ar draws y sefydliad ehangach (gweler isod, paragraffau 38-42, 54 a 133).

Bwriadau'r sefydliad ar gyfer gwella ansawdd a safonau

29 Er bod UWIC yn cydnabod bod gweithgareddau gwella'n gyfrifoldeb i'r holl staff, mae ei Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n chwarae rôl ganolog wrth hybu gwella dysgu ac addysgu. Mae amcanion yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu wedi'u cysylltu â Chynllun Strategol Corfforaethol UWIC a'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Aseu. Gwelir ymagwedd UWIC tuag at wella ansawdd yn y Strategaeth Gwella Ansawdd lle mae dau brif nod: casglu gwybodaeth ar gyfer cynnal a chadw a gwella ansawdd dysgu ac addysgu; a hybu ethos o hunan-werthuso i effeithio gwelliant parhaus.

30 Roedd y tîm adolygu'n ystyried bod rôl yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu wrth gefnogi ysgolion i gyflawni gwelliannau ansawdd, yn hynod bositif. Dysgodd y tîm hefyd bod mewnosod y gweithgaredd hwn mewn ysgolion yn hanfodol. Yn ystod yr adolygiad, gwelodd y tîm bod rhywfaint o ddryswch ymhlith staff ynglŷn â chyfrifoldebau gwahanol elfennau'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu gan gynnwys rôl y Ganolfan Gwella Ansawdd. Dysgodd y tîm fod perthynas yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu gydag ysgolion yn dod yn gynyddol bwysig ac, o ganlyniad, roedd y tîm yn ystyried y byddai'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n elwa o egluro ei strwythur ac atgyfnerthu ei rôl gefnogi gydag ysgolion. Gwelodd y tîm adolygu fod rôl Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r ysgolion yn ganolog i berthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgolion a'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu ac i'r agenda wella ehangach.

31 Er bod nifer o'r gweithgareddau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredol ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Gwella Ansawdd wedi'u hanelu at gyflawni lefelau dadansoddi data y gellir eu disgwyl fel arfer mewn sefydliad fel UWIC (gweler isod, paragraff 65). Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau gwella cliriach fel y cynllun Cymrodoriaeth Addysgu, sy'n cefnogi amrediad eang o staff sy'n cyflawni addysgu ar sail tystiolaeth; prosiectau addysgu ac aseu; prosiectau meincnodi allanol; a strategaethau ar gyfer cysylltu addysgu ac ymchwil.

32 Nododd y tîm adolygu fod uwch staff yn dod at ei gilydd ar draws y sefydliad drwy amrywiaeth o is grwpiau a gweithgorau fel y cyfarfod 'dibriffio' blynyddol o holl gadeiryddion y byrddau arholi. Teimlwyd, felly, mai nodwedd o arfer da oedd y trefniadau i ddwyn uwch staff at ei gilydd ar draws y sefydliad i hybu cysondeb ac i gyfrannu at fewnosod gwella.

Prosesau cymeradwyo, monitro ac adolygu mewnol

Cymeradwyo rhaglenni

33 Mae cyfrifoldeb ar Ddeoniaid Ysgol gyda'u Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu i ddatblygu a chynllunio rhaglenni newydd. Mae pob cynnig ar gyfer rhaglenni newydd sy'n arwain at wob, yn ddibynnol ar gael ei werthuso gan y panel cymeradwyo dechreuol o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is Ganghellor Addysgu a Dysgu cyn symud ymlaen i gael ei ddilysu. Yn achos darpariaeth gydweithredol, mae ymweliad ymchwiliadol rhagarweiniol ychwanegol a ddefnyddir i sefydlu a ddylai'r cynnig symud ymlaen tuag at gael ei ddilysu. Mewn achosion o'r fath, mae proses hefyd o gynnal diwydrwydd dyladwy ar y partner. Roedd y tîm adolygu'n fodlon bod y prosesau hyn yn cael eu cyflawni'n ôl y diffiniad.

34 Lluniwyd y broses ddilysu i sicrhau bod y rhaglenni newydd yn unol â Chenhadaeth UWIC, yn cyflawni gofynion trothwy ansawdd a safonau ac yn ymwybodol o gyferbwyntiau allanol priodol gan gynnwys *The framework for higher education qualifications in England, Wales and Northern Ireland* (FHEQ) a datganiadau meincnodi pwnc. Mae'r broses yn cynnwys craffu ar gyfres ragnodol o ddogfennau rhaglenni gan banel o gyfoedion mewnol ac allanol nad oedd cynt yn gysylltiedig â'r rhaglen ac yn gorffen mewn digwyddiad dilysu ffurfiol lle mae'r panel dilysu'n cyfarfod â rheolwyr yr ysgol a thîm y rhaglen i drafod materion sy'n codi o'r dogfennau. Wedyn, anfonir argymhelliad y panel at y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd i'w gymeradwyo. Mae unrhyw amodau'n cael terfyn amser clir a dilynir hwy drwy'r Uned Systemau Ansawdd ac anfonir adroddiad at y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd.

35 Ar sail amrediad o ddogfennau cymeradwyo a thrafodaethau gyda staff, daeth y tîm adolygu i'r casgliad, yn gyffredinol, bod y broses hon yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, roedd y tîm yn gweld mewn papur at y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd (Tachwedd 2006) nad oedd 21 y cant o'r amodau wedi'u cyflawni tan ar ôl y terfyn amser. Sicraodd yr uwch staff y tîm fod gwelliannau wedi'u gwneud ond nad oedd dadansoddiad hwyrach ar gael i gadarnhau'r gwelliannau hyn. Mae'n bwysig bod gwyliadwriaeth yn parhau, bod monitro cyflawni'r amodau'n parhau a bod y camau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

36 Er bod y weithdrefn yn caniatáu i aelod allanol o'r panel fod o 'fyd gwaith', nid oedd y tîm adolygu'n gweld tystiolaeth i ddangos bod hyn yn gyffredin neu fod barn cyflogwyr yn cael ei defnyddio'n gyson i hysbysu llunio rhaglen a chwricwlwm. Er enghraifft, ar gyfer dilysu modiwlau i bwrpas datblygu proffesiynol parhaus, mae'r broses yn dibynnu ar gyfarwyddwyr addysgu a dysgu ond nid yw'n cynnwys unrhyw sylw sy'n allanol i UWIC. Gan fod credydau o fodiwlau o'r fath yn gallu cael eu cydnabod gyda thystysgrif credyd neu'n gallu cael eu cronni fel rhan o raglenni penodol, mae'r diffyg allanoldeb yn y broses gymeradwyo'n anghyson gyda'r hyn sy'n cael ei gymhwyso i fodiwlau sy'n ffurfio rhan o raglenni. Teimlodd y tîm y byddai gwella'r raddfa allanoldeb, yn arbennig gan gyflogwyr, yn fuddiol (gweler isod, paragraff 46).

37 Roedd yn ymddangos fel petai'r broses ddilysu'n cael ei monitro'n ofalus ar lefel sefydliadol gyda'r drefn ddilysu ac adolygu gan y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd, craffu dogfennau a chynnal cyfarfodydd cyn dilysu a chyn adolygu gan yr Uned Systemau Ansawdd i drafod y dogfennau a sylwadau aelodau'r panel, yn cael eu monitro'n rheolaidd.

Monitro blynyddol

38 Roedd dogfen hunan-werthuso UWIC yn disgrifio'r adolygiad rhaglenni blynyddol fel gwiriad hunan-feirniadol, adlewyrchol ar berfformiad a gweithgareddau academiaidd sy'n anelu at wirio safonau, gwerthuso perfformiad a chanfod cyfleoedd ar gyfer gwella a datblygu. Bydd pob Cyfarwyddwr Rhaglen yn cwblhau'r adolygiad rhaglen blynyddol yn ystod tymor yr hydref. Bydd yn defnyddio templed adolygu rhaglenni blynyddol sy'n cynnwys dataset blaenorol wedi'i ddarparu'n ganolog, cynllun gweithredu ac adroddiad ar gynnydd cynlluniau gweithredu blaenorol. Cred UWIC bod yr adolygiad rhaglenni blynyddol wedi'i hen sefydlu a'i fod yn dangos lefel uchel o gadernid ac effeithiolrwydd. Fodd bynnag, teimlai'r tîm adolygu fod ansawdd yr adolygiadau rhaglenni blynyddol yn amrywio. Roedd enghreifftiau da'n cynnwys ymagwedd gwerthusol gyda phob cam yn cael ei ddatblygu a'u bod yn cymryd sylw o farn allanol a myfyrwyr a dadansoddiad cadarn o adroddiadau arholwyr allanol. Roedd adolygiadau rhaglenni blynyddol gwannach yn dangos diffyg unrhyw ddadansoddiad go iawn gyda gwybodaeth goll fel adborth gan gyflogwyr, diffyg adborth ar lefel modiwl, staff yn methu â nodi cryfderau a dim adroddiadau am rai camau. Teimlai'r tîm hefyd fod y dataset a ddarperir i gyrsiau yn ganolog i'w cynnwys mewn adroddiadau, yn gyfyngedig yn ei werth gan nad oedd o reidrwydd yn cynnwys canlyniadau ail sefyll ac nad oedd yn cael ei ddadansoddi'n dda, yn gyffredinol, yn yr adroddiadau (gweler isod, paragraff 65).

39 Clywodd y tîm adolygu fod adolygiadau rhaglenni blynyddol yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan bwyllgorau rhaglenni ond tystiolaeth ddogfennol gyfyngedig a welodd y tîm fod yr adolygiadau wedi'u hystyried na'u cymeradwyo'n gyson gan bwyllgorau rhaglenni. Mae trefnau UWIC yn gofyn am gyflwyno adolygiadau rhaglenni blynyddol i'r Uned Systemau Ansawdd yn y Gofrestrfa Academiaidd ac, yn gyfluniol, yn cael eu craffu gan Bwyllgor Addysgu a Dysgu'r Ysgol. Cadarnhawyd drwy ddogfennau a chyfarfodydd gyda staff nad oedd yr adolygiadau rhaglenni blynyddol, yn gyffredinol, yn cael eu hystyried fel hyn ac mai'r adroddiad trosolwg o'r adolygiad rhaglenni blynyddol a'i gynllun gweithredu oedd yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Addysgu a Dysgu'r ysgol. Teimlai'r tîm mai un rheswm pam bod arfer yn wahanol i'r drefn y cytunwyd arni oedd eu bod yn teimlo bod gormod o adolygiadau rhaglenni blynyddol i'w hystyried gan un pwyllgor. Er bod y tîm wedi dysgu ei fod yn cael ei dderbyn yn gyffredinol ymhlith y staff nad oedd arfer yn unol â threfnau ysgrifenedig, nad oedd hyn wedi ysgogi adolygiad o'r weithdrefn. Roedd hyn, ynghyd â'r ymagwedd anghyson at graffu ar adolygiadau rhaglenni blynyddol mewn Pwyllgor Rhaglenni, yn gwneud i'r tîm ddod i'r casgliad nad oes digon o drafodaeth a dadl am y broses adolygu rhaglenni blynyddol ond ei fod yn ddibynnol iawn ar y cyfarwyddwyr addysgu a dysgu. Roedd y tîm yn ystyried y dylid defnyddio'r strwythurau pwyllgor yn yr ysgolion yn ôl y bwriad i sicrhau bod pob rhaglen yn cael ei gwerthuso'n briodol a bod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu'n ddigonol gyda chydweithwyr.

40 Ar lefel sefydliadol, ystyrir yr adroddiadau trosolwg o adolygiad rhaglenni blynyddol ysgolion gan is grŵp o'r Bwrdd Addysgu a Dysgu sy'n cynnwys y Deon Ansawdd a Safonau a holl gyfarwyddwyr addysgu a dysgu. Mae'r adroddiadau trosolwg hyn yn ddisgrifiadol yn bennaf a gwelir diffyg cynnwys dadansoddiadol. Hefyd, nid ydyn nhw'n cynnwys unrhyw ddata na sylw ar lefel ysgol. Yna, mae'r Deon Ansawdd a Safonau'n paratoi adroddiad ar faterion cyffredinol sy'n codi o adolygiadau rhaglenni

blynyddol nad ydynt o fewn cylch gwaith ysgolion. Bydd y Bwrdd Addysgu a Dysgu'n ystyried yr adroddiad hwn ac yn ei ddilyn drwy'r broses.

41 Yn gyfluniol, mae'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd yn cynnal archwiliad blynyddol o adolygiadau rhaglenni blynyddol ac yn llunio adroddiad ar hyn i'r Bwrdd Addysgu a Dysgu. Er bod y ddogfen hunan-werthuso wedi nodi ei bod yn anghyffredin i adolygiad rhaglenni blynyddol beidio â chael ei gyflwyno'n brydlon, roedd yr adroddiad yn datgelu nad oedd cyfran uchel o adolygiadau rhaglenni blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Uned Systemau Ansawdd erbyn y dyddiad cau ym mis Tachwedd gydag un ysgol heb gyflwyno unrhyw adroddiad erbyn mis Ebrill. Gan fod adroddiadau trosolwg yr ysgol a'r adroddiadau trosolwg cyffredinol wedi'u llunio cyn cyflwyno nifer o'r adolygiadau rhaglenni blynyddol, roedd yn aneglur sut roedd UWIC yn cael sicrwydd bod yr holl faterion perthnasol wedi'u nodi ac yna'n cael eu dilyn trwyddo. Roedd y tîm adolygu'n ystyried bod y ffaith bod uwch staff allweddol sy'n ymwneud â'r broses yn dod at ei gilydd yn yr is grŵp Bwrdd Addysgu a Dysgu'n gwrthweithio rhai o'r diffygion mewn manau eraill yn y system.

42 I gloi, mae'r tîm adolygu'n ystyried y byddai'n ddoeth i'r sefydliad adolygu a diwygio'r broses o fonitro rhaglenni'n flynyddol i sicrhau ei bod yn gyson gadarn ac effeithiol.

Adolygiad cyfnodol

43 Mae'r broses adolygu cyfnodol yn cynnwys craffu ar gyfres ragnodedig o ddogfennau rhaglenni gan banel o gyfoedion mewnol ac allanol nad oedd yn flaenorol yn gysylltiedig â'r rhaglen. Mae'r broses yn gorffen mewn digwyddiad adolygu ffurfiol pan fydd y Panel Adolygu'n cyfarfod â rheolwyr yr ysgol, tîm y rhaglen a myfyrwyr i drafod dangosyddion perfformiad a materion eraill sy'n codi o ddogfennau'r rhaglen. Mae'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd (a'r Pwyllgor Darpariaeth Gydwethredol pan fydd hynny'n briodol) yn ystyried yr adroddiadau a luniwyd gan baneli adolygu cyfnodol ac yn monitro cwblhau unrhyw amodau cymeradwyo. Cedwir y broses adolygu ar wahân oddi wrth y cymeradwyo newidiadau i'r rhaglen sydd wedyn yn gorfod dilyn y digwyddiad adolygu drwy ddefnyddio'r prosesau a amlinellir isod. Credai rhai staff bod hyn yn rhaniad diangen. Roedd y broses adolygu'n ymddangos fel petai'n gweithio'n ôl y cynllun ond byddai'r tîm adolygu'n annog UWIC i ystyried a oedd y manteision a welwyd o rannu'r adolygiad a'r prosesau cymeradwyo'n gorbwyo'r cymhlethdod ychwanegol sydd ynghlwm.

44 Anogir timau rhaglenni i wneud newidiadau parhaus i raglenni i'w diweddarau a'u gwneud yn berthnasol drwy broses o wneud addasiadau mawr a mân. Ar gyfer mân addasiadau, bydd y rhesymeg dros y newid(iadau) yn cael ei gyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd gyda thystiolaeth o gefnogaeth gan y Pwyllgor Rhaglen, Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r ysgol a'r arholwr allanol. Ar ôl cael cytundeb, cyflwynir rhestr fanwl o fân addasiadau a gymeradwywyd i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd. Ystyrir addasiadau mawr drwy broses sy'n nes at ddilysu gydag allanoldebau ond llai o ddogfennau. Mae'r broses yn cynnwys cyfarfod o'r panel gyda myfyrwyr presennol ar ddiwrnod y digwyddiad. Mae cyfarwyddiadau wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Academaidd ynglŷn â chynnwys y graddau hyn o addasu a bydd ail-ddilysu'n sicrhau newid mwy arwyddocaol.

45 Roedd proses newydd ar gyfer adolygu adrannol unedau ac ysgolion UWIC yn dechrau ym mis Hydref 2007 gydag adolygiad o wasanaethau myfyrwyr. Ystyriwyd y digwyddiad fel adolygiad peilot gydag adborth yn gyffredinol yn gadarnhaol. Teimlai'r tîm adolygu fod y broses yn ymddangos yn eithaf cymhleth gan gynnwys llawer iawn o ddogfennau cefnogol a'i bod yn arwain at argymhellion a allai fod yn amlwg yn barod. Byddai'n annog UWIC i ystyried a oedd y broses fel y'i diffinnir ar hyn o bryd yn ychwanegu gwerth go iawn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y tîm yn gweld bod trefnau UWIC ar gyfer adolygu cyfnodol ac addasiadau i raglenni'n briodol ac yn effeithiol.

Cyfranogaeth allanol mewn prosesau adolygu mewnol

46 Yn gyffredinol, gwelwyd bod trefnau UWIC ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu mewnol, yn cynnwys digon o allanoldeb i greu hyder yn y trefnau hynny. Fodd bynnag, thema oedd yn ail adrodd ei hun, yn ffurfiol o leiaf, oedd bod cyflogwyr a graddedigion yn disgwyl adborth neu gyngor. Felly, mae'r tîm adolygu'n ystyried ei bod yn ddoeth i'r sefydliad ddatblygu ymagweddu mwy cyson at gyfranogaeth ffurfiol graddedigion a chyflogwyr wrth lunio, dilysu ac adolygu rhaglenni (gweler paragraffau 36 ac 82).

Asiantaethau allanol yn adolygu ac yn achredu lefel rhaglen

47 Ar hyn o bryd, mae UWIC yn cael ei achredu a'i adolygu gan 33 o gyrff proffesiynol neu allanol eraill. Gellir addasu ei drefnau ar gyfer cymeradwyo ac adolygu rhaglenni i ystyried gofynion cyrff proffesiynol a statudol gan gynnwys cynnal digwyddiadau ar y cyd gyda chyrff proffesiynol a statudol.

48 Mae cyfarwyddwyr addysgu a dysgu'n hysbysu'r Uned Systemau Ansawdd am achrediadau, adolygiadau ac arolygiadau cyrff proffesiynol fel maen nhw'n digwydd ac mae'r Uned Systemau Ansawdd yn cadw manylion holl gymeradwyaethau cyrff proffesiynol a statudol mewn cronfa ddata. Mae holl adroddiadau cyrff achredu proffesiynol neu ddulliau eraill o graffu allanol, yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o brosesau safonol UWIC. Mae pob achredu a gynhaliwyd ers 2002 wedi sicrhau deilliannau llwyddiannus ac nid oes un thema benodol wedi ymddangos o'r adroddiadau. Fodd bynnag, mae UWIC wedi gweld cyfle i ganfod a dosbarthu arfer da a bydd hwn yn cael ei archwilio gan y Pwyllgor Monitro Ansawdd yn 2008-09. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod trefniadau ar gyfer cynnwys asiantaethau allanol mewn cymeradwyo ac adolygu, yn gyffredinol yn briodol a chadarn.

Arferion a threfnau asesu

49 Gwelir rheoliadau asesu a ddeilliodd o rai Prifysgol Cymru, yn y Llawlyfr Academaidd sydd hefyd yn darparu rheoliadau 'cyffredinol' mwy penodol cysylltiedig â'r math o raglen (er enghraifft, ar gyfer graddau modwlar dechreuol neu Raddau Sylfaenol). Hefyd, gall dogfennau rhaglenni gynnwys rheoliadau penodol i'r rhaglen. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn nodi bod rheoliadau rhaglen yn ostyngedig i reoliadau cyffredinol sydd, yn eu tro, yn ostyngedig i'r Rheoliadau Asesu Cyffredinol. Disgwylir i fyrdau arholi sy'n gweld gwrthdaro gyfeirio at gyfres uwch o reoliadau.

50 Mae'r rheoliadau cyffredinol perthnasol yn gymwys ym mhob achos, heblaw lle mae amrywiadau'n cael eu cymeradwyo wrth ddilysu rhaglen. Gellir, er enghraifft, gymeradwyo amrywiadau ar sail gofynion cyrff cyhoeddus, statudol a rheoliadol a nodwyd enghreifftiau o hyn. Hysbyswyd y tîm adolygu nad yw myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gwobr achrededig corff cyhoeddus, statudol a rheoliadol ac sy'n cyflawni rheoliadau generig, ond yn methu â bodloni gofynion corff proffesiynol, fel arfer yn gymwys i gael gwobr heb ei hachredu yn yr un maes disgyblaeth. Nid oes un polisi yn sicrhau bodolaeth gwobr o'r fath ym mhob achos. Yn ystod ei ymchwiliadau, gwelodd y tîm hefyd bod rhai rheoliadau generig yn amrywio yn y nifer o ail asesiadau a ganiateir ac mae cosbau am gyflwyno aseiniadau'n hwyr hefyd yn amrywio rhwng ysgolion gan arwain at anghysonderau ym mhrofiad myfyrwyr ar wahanol gyrsiau. Rhaid cytuno ar amrywiaethau o'r fath, eto adeg dilysu'r rhaglen. Dywedodd y staff wrth y tîm adolygu bod angen a bod bwriad i leihau'r anghysonderau yn y broses asesu.

51 Mae Grŵp Adolygu'r Llawlyfr Academaidd yn adolygu rheoliadau ac mae'r Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig yn cynnig newidiadau i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae'n bosibl yr ysgogir newidiadau rheoliadol gan anghysonderau arfer neu ddehongliad sy'n cael eu hadrodd yn ôl drwy fyrddau a phwyllgorau neu dimau rhaglenni. Er enghraifft, mae gwaith diweddar wedi ystyried triniaeth marciau sydd ar y ffin a'r defnydd o iawndal sy'n esgor ar ganllawiau newydd a chliriach.

52 Mae myfyrwyr yn cael eu hysbysu am reoliadau asesu gan y Llawlyfr Myfyrwyr sy'n cyfeirio myfyrwyr at y rheoliadau asesu cyffredinol yn y Llawlyfr Academaidd ac sy'n nodi ymhellach y dylid cynnwys union fanylion asesu ar gyfer rhaglen arbennig yn y llawlyfr rhaglen perthnasol. Mae'r Llawlyfr Marc Siarter (gweler uchod, paragraff 20) yn mynnu bod llawlyfrau rhaglenni'n amlinellu unrhyw raglen neu reoliadau penodol i ysgol gan gynnwys cosbau am gyflwyno gwaith yn hwyr. Roedd enghreifftiau o lawlyfrau rhaglenni oedd ar gael i'r tîm adolygu'n amrywio i'r graddau yr oedden nhw'n cydymffurfio â'r gofyn hwn. Yn gyffredinol, tra bod myfyrwyr yn cael mynediad i'r fframwaith rheoliadol sy'n rheoli'r gwobrau hyn, mae'r sefyllfa'n cael ei chymhlethu oherwydd y tair lefel o reoliadau a'r posibilrwydd o amrywiadau rhwng gwobrau tebyg.

53 Sicrheir canllawiau meini prawf graddio asesiadau ar lefel sefydliadol a disgwylir i bob ysgol nodi meini prawf asesu ysgolion yn unol â'r rhain ond eu bod yn adlewyrchu'r meysydd disgyblaeth priodol. Gwahaniaethir rhwng y meini prawf ysgolion hyn fesul lefel mewn rhai achosion ond nid bob tro. Roedd myfyrwyr, yn eu cyflwyniadau ysgrifenedig ac mewn cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu, yn cadarnhau bod meini prawf asesu'n cael eu cyflwyno'n glir iddyn nhw mewn llawlyfrau rhaglenni. Fodd bynnag, roedd nifer o arholwyr allanol wedi nodi y gallai'r canllawiau a gyflwynir fod yn fwy defnyddiol i staff academaidd a bod hyn yn cael ei drafod ymhellach gan y Grŵp Cynllunio Adolygiadau Sefydliadol adeg ysgrifennu'r ddogfen hunan-werthuso.

54 Disgwylir i lawlyfrau rhaglenni gynnwys 'addewid o safbwynt safonau adborth ar waith ac aseiniadau ac amser troi'r rhain o gwmpas'; fodd bynnag, nid oedd nifer o'r rhai oedd ar gael i'r tîm adolygu yn cynnwys gwybodaeth o'r fath, er enghraifft, y Llawlyfr MBA. Roedd myfyrwyr yn dweud iddyn nhw gael profiadau amrywiol o safbwynt prydlondeb adborth, gan nodi'r arfer gorau gan dîm Ysgol Chwaraeon Caerdydd lle, o ddechrau'r flwyddyn academaidd bresennol, roedd myfyrwyr wedi

cael dyddiad pendant ar gyfer dychwelyd pob darn o waith i'w asesu. Mewn achosion eraill, fodd bynnag, roedd gwaith wedi'i ddechrau yn rhy hwyr i fyfyrwyr ddysgu o'r adborth cyn cyflwyno eu haseiniadau nesaf. Roedd rhai myfyrwyr yn gweld amrywiaeth yn ansawdd yr adborth hefyd fel problem er eu bod yn gweld y templed safonol a gyflwynwyd yn ddiweddar fel rhywbeth defnyddiol. Roedd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr yn sôn am farn gymysg ynglŷn â phrydlondeb ac ansawdd adborth y gwaith cwrs ac amseru ac adborth ar ôl arholiadau. Mae'r tîm yn ystyried y dylai UWIC sicrhau adborth ar asesiadau i fyfyrwyr mewn dull clir, cyson a phrydlon.

Arholwyr allanol a'u hadroddiadau

55 Mae ysgolion yn enwebu arholwyr allanol ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu haddysgu drwy ddefnyddio dull safonol a thrwy benodiad y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd yn unol â chynghor gweithgor sy'n cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw gydag aelod o'r Uned Systemau Ansawdd yn gyfrifol am arholwyr allanol. Mae'r Uned Systemau Ansawdd yn anfon llythyrau penodi a gwybodaeth frifio allan, yn cynnal rhestr o arholwyr allanol ac yn atgoffa ysgolion pan fydd penodiadau ar fin dod i ben.

56 Gwahoddir yr holl arholwyr allanol newydd ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu haddysgu i ddiwrnod cynefino sy'n cynnwys cyfle i gyfarfod â thîm y rhaglen. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod arholwyr allanol yn cael eu hannog yn gryf i fynychu'r digwyddiad hwn ac, os na fyddan nhw'n gallu gwneud hynny, trefnir cyfarfodydd personol iddyn nhw gan yr ysgol. Roedd pedwar ar ddeg o arholwyr allanol newydd yn mynychu'r digwyddiad cynefino diweddaraf ac roedd eu gwerthusiad yn dangos bod y cynnwys wedi bod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol.

57 Cadeiryddion y byrddau arholi yw un o nifer bychan o gadeiryddion y disgwylir iddyn nhw gael eu datblygu ar gyfer y rôl hon. Mae un o'r grŵp hwn yn aelod o staff partner cydweithredol. Mae arholwyr allanol yn adrodd yn ôl ar ffurflen safonol sydd ar gael yn electronig. Mae hon yn cynnwys rhestr wirio gyda chyfleoedd i roi sylwadau ar safonau academaidd ac ansawdd cyflawniad ac asesiad myfyrwyr. Gofynnir i arholwyr allanol hefyd gyfeirio at y fframwaith cymwysterau cenedlaethol ac unrhyw feincnodi perthnasol. Roedd yr enghreifftiau gorau o adroddiadau cyflawn a gafwyd yn rhoi gwerthusiad clir o'r rhaglen a'i safonau ond roedd yr ansawdd yn amrywiol ac mae'n bosibl y bydd y sefydliad yn dymuno monitro hyn yn fwy gofalus.

58 Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n nodi bod adroddiadau'n cael eu trafod mewn pwyllgorau rhaglenni ac yn cael eu hadlewyrchu mewn adolygiadau rhaglenni blynyddol. Dywedodd y Deoniaid wrth y tîm adolygu eu bod yn darllen holl adroddiadau eu hysgol. Hefyd, mae cyfarwyddwyr addysgu a dysgu'n crynhoi holl adroddiadau'r arholwyr allanol yn eu hysgolion gan gynnwys y rhai o ddarpariaeth gydweithredol ac yn llunio cynllun gweithredu sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Addysgu a Dysgu'r ysgol a'i Thîm Rheoli a Chynllunio. Defnyddir ffurflen safonol ar gyfer y broses hon sy'n creu crynodebau'n cynnwys rhestr o bwyntiau arfer da a rhestr o broblemau a chymau i'w cymryd i wella'r rhain. Yn yr enghreifftiau a welwyd, ychydig o dystiolaeth a welodd y tîm o ddadansoddi a gwerthuso nac o adeiladu ar arfer da a welwyd. Mewn adborth, hysbysodd y staff y tîm mai pwrpas y trosolwg oedd cytuno ar gamau ac nad oedd yn drefn ar gyfer dadansoddi. Dysgodd y tîm fod cyfarwyddwyr addysgu a dysgu'n gyfrifol am fonitro

camau ac mae'r Deon Ansawdd a Safonau hefyd yn darllen holl adroddiadau'r arholwyr allanol ac yn llunio crynodeb mwy gwerthusol ar gyfer y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd, y Bwrdd Addysg a Dysgu a'r Bwrdd Academaidd.

59 Mae cyfarwyddwyr rhaglenni'n ymateb i arholwyr allanol ar ffurflen safonol ac anfonir copïau o'r adborth i'r Uned Systemau Ansawdd sydd wedyn yn anfon llythyrau atgoffa yn achos adborthion hwyr. Hefyd, mae'r Deon Ansawdd a Safonau'n trafod problemau allweddol gyda'r Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu priodol. Mewn achosion difrifol iawn, gall y Deon Ansawdd a Safonau gysylltu â'r arholwr allanol yn uniongyrchol.

60 Ymdrinnir ag adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth gydweithredol mewn modd cydweddol i raglenni ar y campws. Mae'r pwyllgor rhaglenni'n eu hystyried ac yn eu cynnwys yng nghrynodeb y Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu sy'n berthnasol i'r ysgol. Hyd y mae'n bosibl, penodir arholwr allanol cyffredin i'r holl raglenni. Llunnir adroddiad blynyddol ar wahân ar arholi allanol HND ar gyfer Edexcel, gan ddefnyddio ei ffurflen safonol.

61 Mae'r Bwrdd Arholi ar gyfer gradd ymchwil fel arfer yn cynnwys un arholwr allanol; fodd bynnag, yn achos myfyriwr sydd hefyd yn aelod o staff UWIC, mae angen dau arholwr allanol. Cynigir arholwyr allanol ar gyfer graddau ymchwil gan bwyllgor graddau ymchwil yr ysgol a'u cadarnhau gan Bwyllgor Graddau Ymchwil y sefydliad.

62 Roedd y tîm adolygu'n ystyried yn gyffredinol, fod y trefnau ar gyfer penodi a chynefino arholwyr allanol yn briodol. Mae prosesau yn eu lle ar gyfer adborth i sylwadau arholwyr allanol ac ar gyfer monitro camau sy'n deillio o sylwadau o'r fath. Fodd bynnag, teimlai'r tîm y dylid annog mwy o ddadansoddi a gwerthuso ar lefel ysgol ac y gallai'r sefydliad elwa o wneud defnydd mwy penodol o arfer da a nodwyd gan arholwyr allanol fel rhan o'i strategaeth wella.

Ystadegau datblygu a chwblhau

63 Defnyddir data ystadegol i hysbysu gwella cynllunio strategol ac ansawdd. Ar gyfer cynllunio strategol, yn 2006 cyflwynwyd dangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol (i'w defnyddio gan Fwrdd y Llywodraethwyr a'r uwch reolwyr) a dangosyddion perfformiad allweddol yr ysgol (a ddefnyddir i baratoi cynlluniau strategol ysgolion). Mae dangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol yn cynnwys nifer sy'n berthnasol i ddysgu ac addysgu gan gynnwys recriwtio, cyflogadwyedd, canran o raddau anrhydedd da a chynnal a gwella cyfraddau ansawdd allweddol. Mae data'n cael eu cymharu gyda meincnodau cenedlaethol pan fydd y rhain ar gael neu yn erbyn casgliad o sefydliadau AU cystadleuol. Cyflwynir adroddiadau ar ddata allweddol am recriwtio, datblygu a chyflawni ar lefel sefydliad yn uniongyrchol i'r Bwrdd Academaidd a'i is-fyrddau perthnasol sydd hefyd yn monitro camau mewn adborth i faterion a godwyd gan y data hyn.

64 Hysbyswyd y tîm adolygu bod materion dargadw a dilyniant ar lefel rhaglen yn cael eu hystyried gan fyrddau arholi. Hefyd, mae adolygiadau rhaglenni blynyddol yn cynnwys rhai data recriwtio, dilyniant a chyflawniad. Cyflenwir hyn yn ganolog i bob rhaglen ond mynegwyd pryderon gan staff am gywirdeb data. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd i'r tîm yn cynnwys cam-gyflwyno gwobrau tramor fel bod rhaglenni ôl-raddedig yn ymddangos fel petai ganddyn nhw fwyafrif o fyfyrwyr heb radd gyntaf a ffigyrau dilyniant

a gwobrau sy'n methu ag adlewyrchu ail asesu. Mae'r holl ddata'n cael eu cyflwyno ar lefel y criw blwyddyn rhaglen lawn; nid oes unrhyw fodd ar hyn o bryd i fonitro ar lefel is-griw, dosbarthu, er enghraifft, fesul rhyw, modd o astudio, ethnigrwydd neu anabledd.

65 Mae sawl ffynhonnell i ddata ystadegol, er enghraifft, mae data ar ddosbarthiadau gwobrau'n cael eu cyflenwi gan y Gofrestrfa Academaidd ac mae'r rhai ar gyraeddiadau gradd gan yr Uned Gyrfau. Cedwir gwybodaeth ystadegol ar gyfer dilyniant cydunol gan y Gofrestrfa ac mae sefydliadau partner yn gyfrifol am fwydo i'r data hyn. Mae safonwyr yn rhoi data'n ôl i dimau rhaglenni cydunol ar gyfer monitro. Mae UWIC wedi cydnabod yn ei Strategaeth Gwella Ansawdd y gall y lluosogrwydd hwn o ffynonellau data fod yn ddryslyd ac mae camau ar y gweill i greu un ffynhonnell ddata. Mae system wybodaeth amgen i fyfyrwyr i'w nodi a'i chyflwyno ac, adeg yr adolygiad, roedd apwyntiad wedi'i wneud i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r prosiect hwn. Bydd yr unigolyn hwn/hon yn gweithio'n agos gyda'r prif grwpiau defnyddwyr gan gynnwys myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n croesawu'r cam hwn ac mae'n ystyried y byddai'n ddoeth i UWIC flaenoriaethu datblygu systemau gwybodaeth rheolaeth newydd a phrosesau cysylltiol er mwyn sicrhau bod data myfyrwyr yn cael eu monitro'n gywir ac yn brydlon ar bob lefel.

Cyferbwytiau allanol

66 Mae UWIC yn defnyddio'r *Cod Ymarfer* i adolygu'n barhaus ei reoliadau, ei bolisiau a'i drefnau. Hyd at Fedi 2005, ffocws y gweithgaredd hwn oedd y Gweithgor Cod Ymarfer. Roedd ei swyddogaethau ar y pwynt hwn yn cael eu cynnwys yn y Grŵp Adolygu Sefydliadol. Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n rhoi nifer o enghreifftiau lle'r oedd ystyried adrannau unigol y *Cod Ymarfer* wedi arwain at ddiwygio polisi ac arfer a gytunwyd drwy'r strwythur pwyllgor. Roedd y rhain yn cynnwys y defnydd o *Adran 1: Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig* ar gyfer ei ofynion ymchwil ôl-raddedig ac *Adran 4: Arholi allanol* i ganfod ac yna delio â rhai 'problemau bach' ar gyfer gwella'r broses arholi allanol. Hefyd, mae polisi drafft y sefydliad ar gyfer canfod, achredu a datblygu dysgu'n cynnwys mapio polisi a threfnau drafft y sefydliad i achredu dysgu blaenorol ar y canllawiau ASA ar achredu dysgu blaenorol. Er bod y sefydliad, yn gyffredinol, yn alinio ei drefnau'n agos gyda'r *Cod Ymarfer* nododd y tîm adolygu nad oedd tystysgrifau gwobrau darpariaeth gydweithredol yn cynnwys enw'r partner cydunol er bod trawsgriadau'n gwneud hynny. Hysbyswyd y tîm bod hyn oherwydd bod y tystysgrifau'n cael eu llunio gan Brifysgol Cymru a'r corff hwn sy'n penderfynu ar y geiriad. Teimlai'r tîm adolygu y dylai UWIC ystyried ymhellach eiriad y tystysgrifau er mwyn cyflawni ysbryd y *Cod Ymarfer, Adran 2: Darpariaeth gydweithredol a dysgu hyblyg a gwasgaredig (gan gynnwys e-ddysgu)* ac yn arbennig *Egwyddor 24*. Dylid gwneud hyn drwy ymgynghori gyda Phrifysgol Cymru fel y corff gwobrwyo fel na fydd darpar gyflogwyr yn cael eu camarwain am unrhyw agwedd o wobwr myfyriwr.

67 Ystyrir meincnodau pwnc, y fframwaith cymwysterau ac unrhyw ofynion corff proffesiynol fel rhan o ddatblygu, dilysu ac adolygu rhaglen. Sicrheir ystyriaeth o'r fath drwy gynnwys y prosesau manylebau rhaglen yn y dogfennau angenrheidiol ar sail canllawiau ASA. Mae'r Llawlyfr Academaidd yn cynnwys pro forma a chyfarwyddyd ar ysgrifennu manylebau rhaglenni. Mae'r olaf yn nodi y dylid ystyried canlyniadau dysgu yng ngoleuni eu perthynas â phwyntiau cyfeirio allanol gan gynnwys datganiadau

meincnodi pwnc, y fframwaith cymwysterau ac unrhyw ofynion corff proffesiynol. Mae'r canllaw'n nodi ymhellach bod 'datganiadau meincnodi pwnc yn rhoi pwynt dechrau defnyddiol wrth lunio rhaglen newydd neu adolygu rhaglen bresennol. Fodd bynnag, nid hwn yw'r unig bwynt cyfeirio, yn arbennig ar gyfer rhaglenni nad sy'n cyd-daro gyda diffiniadau pynciau a ddefnyddir wrth baratoi'r datganiadau meincnodi'. Rhoddir cyfarwyddyd i'r paneli dilysu ac adolygu cyfnodol ar ddisgwyliadau'r sefydliad ar y Seilwaith Academaidd ac roedd adroddiadau o ddisgwyliadau fel hyn yn cadarnhau trafodaeth am bynciau sy'n berthnasol i, er enghraifft, lefel cyflawniad disgwyliedig a pherthnasedd i'r fframwaith cymwysterau. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn mynegi barn ar y modd y mae rhaglen yn parhau i gyflawni'r disgwyliadau hyn.

68 Mae gan UWIC nifer cynyddol o Raddau Sylfaenol yn ei ddarpariaeth gydweithredol. Hysbyswyd y tîm adolygu bod unrhyw raglen o'r fath a ddilyswyd ers cyhoeddi *Meincnod cymhwyster Gradd Sylfaenol* yn ystyried hyn. Yn achos rhaglenni oedd cyn dyddiad y meincnod, byddai alinio'n cael ei wirio yn yr adolygiad cyfnodol ac/neu'r ail ddilysu.

69 Roedd manylebau rhaglen oedd ar gael i'r tîm adolygu'n defnyddio'r pro forma ac roedden nhw'n ymddangos yn gyson a phriodol. Mewn achosion lle nad yw'r rhaglen arfaethedig yn cyflawni'r meincnod yn llawn, rhaid gwneud achos o eithriad i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd ac yna i'r Bwrdd Academaidd. Nododd y tîm enghraifft o hyn yn y rhaglen MBA nad sydd angen profiad gwaith blaenorol fel rhan o'i feini prawf derbyniad ac felly'n methu â chyflawni'r meincnod ar gyfer y math hwn o raglen a ystyrir fel arfer fel ôl-brofiad lle bydd angen o leiaf dwy flynedd o brofiad gyda'r ymgeisydd nodweddiadol â llawer iawn mwy. Gwelodd y tîm eu bod wedi trafod hyd at lefel Bwrdd Academaidd; fodd bynnag, roedd y drafodaeth yn ymwneud yn bennaf â phynciau anacademaidd recriwtio myfyrwyr. Nid oedd adolygiad diweddarach hefyd yn delio â'r mater hwn.

70 Roedd y tîm adolygu'n ystyried, yn gyffredinol, bod UWIC wedi ystyried pwrpas y cyfeirbwyntiau. Mae wedi adlewyrchu ar ei arferion ei hun yn y meysydd perthnasol ac mae wedi cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod newidiadau priodol wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd UWIC yn ystyried ei arferion ei hun mewn perthynas ag ardystio a'i ystyriaeth o'r datganiad meincnodi MBA.

Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel weithredol a sefydliadol

71 Penodir cynrychiolwyr myfyrwyr i bob rhaglen ac fe'u gwahoddir i fynychu pwyllgorau rhaglenni. Cynigir rhywfaint o hyfforddiant gan Undeb y Myfyrwyr. Hyd at y flwyddyn academaidd bresennol, roedd rôl cynrychiolwyr myfyrwyr yn golygu cysylltu â chyd fyfyrwyr a mynychu amrywiaeth o gyfarfodydd ar lefel ysgol a sefydliad i gynrychioli eu barn. Roedd problemau'n codi wrth recriwtio cynrychiolwyr ac wrth drafod gyda myfyrwyr, deallwyd nad oedden nhw am dreulio amser mewn cyfarfodydd sy'n delio â materion ehangach er eu bod yn barod i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u rhaglenni.

72 Sefydlwyd system newydd fel bod gan bob ysgol gynrychiolydd ysgol taledig yn ychwanegol at gynrychiolydd rhaglen. Mae'r rhain yn cael eu penodi'n gystadleuol, yn cael eu talu, eu rheoli a'u darparu gyda rhaglen hyfforddiant deuddydd gan Undeb y Myfyrwyr i sicrhau lefel o annibyniaeth o'r ysgol. Maen nhw'n cyfarfod yn rheolaidd

gyda Phwyllgor Dysgu ac Addysgu eu hysgol ac yn mynychu, fel y mae'n briodol, gyfarfodydd pwysig eraill o fyfyrwyr a staff ac yn cysylltu gyda chynrychiolwyr rhaglenni. Maen nhw hefyd yn cyfarfod fel grŵp ac mae ganddyn nhw dargedau penodol ar gyfer gwella cyfathrebu gyda myfyrwyr a'u cyfranogaeth. Roedd y cynrychiolwyr ysgolion a gyfarfu â'r tîm adolygu'n frwdfrydig am eu rôl. Roedden nhw'n teimlo bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol ac roedden nhw'n gallu disgrifio dulliau lle'r oedd adborth i'w hysgolion wedi gwneud gwahaniaeth. Roedden nhw hefyd yn disgrifio ymhellach amrediad o drefniadau ar gyfer hysbysu myfyrwyr o gamau oedd yn digwydd o ganlyniad i'w hadborth. Mae'r rhain yn amrywio rhwng ysgolion, ond yn cynnwys e-bost, modiwl a phosteri amgylchedd dysgu rhithwir arbennig. Roedd myfyrwyr eraill, yn arbennig cynrychiolwyr rhaglenni, hefyd yn nodi eu bod yn gweld y system newydd yn un fuddiol. Roedd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr yn dangos bod mwyafrif y myfyrwyr a holwyd yn ymwybodol o'r system o gynrychiolaeth myfyrwyr ac yn gwybod pwy oedd eu cynrychiolwyr.

73 Roedd adolygiad Arbennig ASA o raglenni ymchwil ôl-raddedig ac adroddiad interim Aseswr Allanol Prifysgol Cymru'n tynnu sylw at yr angen am well systemau gynrychiolaeth i fyfyrwyr ymchwil ac, o ganlyniad, crëwyd Pwyllgor Myfyrwyr Ymchwil wedi'i ethol gan fyfyrwyr ymchwil gyda chylch gorchwyl sy'n cynnwys penodi aelodau myfyrwyr ymchwil i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Bwrdd Ymchwil a Menter. Mae rhai, ond nid pob un, o'r pwyllgorau graddau ymchwil ysgolion hefyd yn cynnwys aelodau myfyrwyr.

74 Ar lefel sefydliadol, cynrychiolir myfyrwyr ar y Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academiaidd, y Bwrdd Dysgu ac Addysgu, y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil. Hysbyswyd y tîm adolygu gan y swyddogion sabothol eu bod wedi cael eu cynefino i waith y Bwrdd Dysgu ac hefyd yn cyfarfod yn ffurfiol gyda swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn rheolaidd. Hefyd, mae swyddog sabothol y myfyrwyr (nid y Llywydd) yn aelod o'r pwyllgor sy'n gyfrifol am weinyddu'r Gronfa Fyfywyr Wrth Gefn ac mae'n cymryd rhan lawn wrth ddatblygu'r trefnau a'r meini prawf sy'n rheoli'r gronfa hon ynghyd â chytuno ar wobrau i fyfyrwyr unigol. Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelod o'r Pwyllgor Apeliadau i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

75 Yn achos darpariaeth gydweithredol, mae Memoranda'r Cytundeb Rhaglenni (gweler isod, paragraff 126) yn gofyn am raglen gydweithredol i alw ynghyd y pwyllgorau rhaglenni. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr. Nid oes gan fyfyrwyr darpariaeth gydweithredol unrhyw lais ffurfiol ar fyrddau rhaglenni UWIC, ond mae cyfleoedd ar gael i gynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda staff UWIC a hawl i fynychu campysau UWIC. Nid oedd gan swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr na chynrychiolwyr ysgolion a rhaglenni unrhyw gysylltiadau gyda myfyrwyr mewn sefydliadau partner cydweithredol.

76 Yn gyffredinol, roedd y tîm adolygu'n ystyried bod UWIC yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer cynrychiolaeth myfyrwyr ac, mewn partneriaeth gydag Undeb y Myfyrwyr, yn sicrhau lefelau amrywiol o hyfforddiant i'w gynrychiolwyr myfyrwyr. Yn benodol, roedd y tîm yn nodi fel arfer da, y mater o gyflwyno a datblygu system cynrychiolwyr ysgol effeithiol i wella cyfathrebu a chyfranogaeth myfyrwyr.

Adborth oddi wrth fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr

77 Mae amrediad o ddulliau'n cael eu defnyddio i sicrhau adborth am eu profiadau oddi wrth fyfyrwyr presennol. Gofynnir i bob un o'r myfyrwyr werthuso pob modiwl ac mae canlyniadau hyn ynghyd â sylwadau oddi wrth gynrychiolwyr rhaglenni, yn bwydo i mewn i bwyllgorau cyrsiau a'r adolygiad rhaglenni blynyddol. Hefyd, mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n cynnal arolwg boddhad myfyrwyr yn flynyddol gan gynnwys fel safon amrediad eang o broblemau ond yn ychwanegu ffocws gwahanol a phenodol bob blwyddyn fel darpariaeth llyfrgell neu wasanaethau myfyrwyr. Mae myfyrwyr sy'n eithrio cyn diwedd eu rhaglen yn derbyn holiadur ac mae'r cyrff canolog amrywiol sy'n cynnwys Gwasanaethau Myfyrwyr wedi datblygu trefniadau lleol priodol ar gyfer monitro boddhad cleientiaid.

78 Mae UWIC wedi cydnabod y perygl o 'flinder adolygiadau' a gwelodd y tîm adolygu ddiffyg cyfranogaeth myfyrwyr yn y gyfradd isel o ymateb i rai adolygiadau modiwlau. Er mwyn arbed hyn, mae UWIC wedi dechrau gwneud mwy o ddefnydd o grwpiau ffocws ac wedi arbrofi gyda phrosiectau arloesol fel yr Ystafell Ddyddiadur, wedi'i modelu ar sioeau realaeth y teledu, lle gallai myfyrwyr drafod materion drwy gyswllt fideo. Sefydlwyd ystafell ddyddiadur am sawl diwrnod ar bob campws a dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm ei bod wedi esgor ar ymateb brwdfrydig.

79 Hefyd, gofynnir i fyfyrwyr darpariaeth gydweithredol gwblhau gwerthusiadau modiwl ac mae canlyniadau diwedd gwerthuso rhaglenni'n bwydo i mewn i'r Pwyllgor Rhaglenni Cydweithredol a'r adolygiad rhaglenni blynyddol. Eto, roedd tystiolaeth o lefel isel o gysylltiad â gwerthusiadau modiwl ond dywedodd y safonwyr wrth y tîm adolygu mai rhan o'u rôl yw cynnal cyfarfod preifat gyda myfyrwyr yn eu sefydliadau partner i drafod pryderon. Pan fydd myfyrwyr yn dod yn bennaf o ddiwylliannau lle mae amharodrwydd i feirniadu athrawon, cymerir gofal i egluro pwrpas y cyfarfodydd ac i annog cyfranogaeth.

80 Defnyddir gwybodaeth eang a geir oddi wrth Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol gyda chanlyniadau lefel sefydliad yn cael eu dadansoddi gan yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu a'u trafod gan y Bwrdd Dysgu ac Addysg a'r Bwrdd Academaidd. Mae canlyniadau sy'n benodol i raglen yn cael eu dosbarthu ar gyfer pob ysgol a'u trafod mewn cyfarfod gyda'r Dirprwy Is Ganghellor Dysgu ac Addysgu a'r Deon Dysgu ac Addysgu. Yna, llunnir cynllun gweithredu i ddelio ag unrhyw bryderon ac, o fis Chwefror 2007, estynnwyd yr Arolwg Profiad Dysgu Myfyrwyr Blynyddol i gynnwys barn y myfyrwyr cydweithredol.

81 I gael adborth gan raddedigion, mae UWIC yn defnyddio Cyrchfannau Cenedlaethol Arolwg y Rhai a Adawodd Addysg Uwch a gynhaliwyd chwe mis ar ôl graddio. Cyflwynir dadansoddiad o hyn i'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu ac i'r Bwrdd Academaidd bob blwyddyn. Mae adroddiadau rhaglenni blynyddol hefyd yn cynnwys adran ar adborth graddedigion. Roedd yr adroddiadau oedd ar gael i'r tîm adolygu'n nodi bod hwn wedi'i ddehongli fel gwerthusiad diwedd rhaglen yn hytrach na gwybodaeth oddi wrth raddedigion sawl blwyddyn ar ôl iddyn nhw ddechrau ar eu gyrfaoedd er iddyn nhw nodi nifer o enghreifftiau o gyswllt anffurfiol gydag alumni. Mae gan rai ysgolion gronfeydd data lleol i'w galluogi i gadw mewn cysylltiad gyda'u graddedigion ac weithiau, mae swyddfa'r Alumni wedi defnyddio ei chronfa ddata i geisio adborth ar faterion penodol.

82 Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n dweud bod 'gan UWIC nifer o wahanol ddulliau lle gall llais cyflogwyr gael ei glywed' – nifer ohonyn nhw'n defnyddio cysylltiadau anffurfiol drwy waith gyda chyrff proffesiynol, sefydliadau busnes, darparwyr lleoliadau a phartneriaid partneriaeth trosglwyddo gwybodaeth. Yn fwy ffurfiol, bwriedir cael fforwm budd-ddeiliaid ar lefel sefydliad a byrddau cynghori ysgolion. Fodd bynnag, roedd yr adran ar adolygiadau rhaglenni blynyddol yn canolbwyntio ar adborth gan gyflogwyr ac yn awgrymu lefel isel o gysylltiad (gweler uchod, paragraffau 36 a 46).

83 I gloi, roedd y tîm adolygu'n ystyried bod UWIC wedi gwneud ymdrech sylweddol i gael adborth oddi wrth ei fyfyrwyr presennol ond y dylai ystyried cysylltu mewn trefniadau mwy ffurfiol i geisio adborth oddi wrth ei raddedigion a'u cyflogwyr.

Trefnau ar gyfer cwynion ac apeliadau myfyrwyr

84 Mae manylion trefnau ffurfiol ar gyfer cwynion ac apeliadau myfyrwyr yn y Llawlyfr Academaidd. Hysbysir myfyrwyr am y ddwy drefn drwy'r Llawlyfr Myfyrwyr a chysylltiadau i gael mwy o fanylion. Hefyd, rhoddir gwybodaeth yn adran 'cwestiynau cyffredin' y safle amgylchedd dysgu rhithwir.

85 I ddechrau, anogir achwynwyr i geisio ateb anffurfiol i'w cwyn os yn bosibl. Ar ôl hyn, mae tri cham i'r drefn ffurfiol gan orffen mewn gwrandawriad gan banel o dan gadeiryddiaeth aelod o Fwrdd yr Is Ganghellor. Dangosir disgwyliadau clir o'r amser eithaf ar gyfer pob cam. Pan fydd y trefnau mewnol wedi'u cwblhau, rhoddir gwybodaeth i'r achwynwyr i'w galluogi i gymryd yr achos i Swyddfa'r Beirniad Annibynnol. Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sydd â'r cyfrifoldeb eithaf am Drefn Cwynion UWIC, ond mae Deon y Myfyrwyr yn cymryd rôl Swyddog Cwynion ac yn delio â gweinyddu cwynion y myfyrwyr. Llunnir adroddiad yn flynyddol ar y defnydd o'r system gwynion i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae myfyrwyr sy'n astudio gyda phartneriaid cydweithredol yn defnyddio system gwynion y partner mewn achosion lle mae'r broblem yn amlwg yn gyfrifoldeb y partner. Ond, pan fydd y cwyn yn ymwneud â materion academaidd o fewn y Memorandwm Cydsynio, yna mae UWIC yn mynnu cadw'r hawl i ymyrryd.

86 Mae Trefn Gwirio ac Apelio Academaidd UWIC ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu haddysgu'n ymwneud yn unig â chyflwyniadau yn erbyn penderfyniadau academaidd. Gellir cyflwyno apeliadau ar sail camgymeriad ffeithiol neu rifol wrth asesu gwaith y myfyriwr dan sylw yn unig, afreoleidd-dra wrth gynnal yr asesiad neu amgylchiadau lliniarol nad sydd, am ryw reswm, wedi'u hysbysu i'r bwrdd arholi adeg y trafodaethau. Y cam cyntaf yw cais ffurfiol am wirio'r canlyniadau dan sylw. Yn dilyn hyn, os na fydd y mater wedi'i ddatrys, gellir gwneud apêl ffurfiol. Yr Is Ganghellor neu ei enwebedig sy'n penderfynu a oes achos o 'prima facie' yn parhau ac os felly, cydlynir panel apêl. Fel gyda chwynion, nodir amserlenni ac er eu bod yn hir, mae cyfnod o dri mis lle mae'n rhaid gwneud penderfyniad 'prima facie'. Mae myfyrwyr nad sy'n fodlon gyda chanlyniad terfynol trefnau'r sefydliad yn cael gwybodaeth am Swydd y Beirniad Annibynnol. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar y defnydd o'r system gwynion i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd a'r Bwrdd Safonau a'r Bwrdd Academaidd. Rhaid cyflwyno apeliadau yn erbyn cyrff gwobrwyo eraill fel y City and Guilds, i'r corff dan sylw ac mae'r drefn apeliadau'n cyfeirio myfyrwyr at y Gofrestrfa Academaidd i gael gwybodaeth am hyn. Mae gan yr holl fyfyrwyr sy'n astudio gyda phartneriaid

cydweithredol, fynediad i drefnau UWIC ar gyfer apeliadau a rhaid iddyn nhw eu defnyddio. Nododd y tîm adolygu un achos o lawlyfr myfyrwyr partner oedd yn methu â dangos hyn yn glir (gweler isod, paragraff 133).

87 Mae trefn apeliadau ar wahân, ond ynn gyfatebol ar gael ar gyfer myfyrwyr gradd ymchwil. Cyhoeddir manylion y drefn apelio ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn y Rheoliadau Graddau Ymchwil, sy'n rhan o'r Llawlyfr Astudiaethau Ymchwil. Mae hwn yn cynnwys goruchwyliaeth annigonol fel mater y gellir apelio yn ei erbyn. Mae amserlenni'n glir eto.

88 Gwelodd y tîm adolygu fod gan UWIC brosesau priodol ar gyfer datrys cwynion ac apeliadau myfyrwyr. Roedd y myfyrwyr oedd yn cyfarfod y tîm yn nodi, er nad oedden nhw'n gwybod manylion trefnau o'r fath, eu bod yn gwybod lle i gael hyd iddyn nhw a lle i ofyn am help i'w defnyddio.

Sicrwydd ansawdd staff addysgu, penodi, gwerthuso a gwobrwyo

89 Mae ymagwedd UWIC at benodi, gwerthuso a gwobrwyo ei staff academiaidd yn ei *Strategaeth Adnoddau Dynol 2004-08* ac wedi'i alinio gyda'i *Gynllun Strategol Corfforaethol 2007-11*. Sefydlwyd yr Uned Datblygu Staff ym 1999 a'i integreiddio i mewn i Adnoddau Dynol yn 2003-04. Mae ysgolion wedi bod yn gyfrifol am staffio ers cyflwyno'r strwythur ysgolion newydd yn 2006.

90 Mae Llawlyfr Cyfarwyddiadau Rheoli cynhwysfawr ar gyfer recriwtio a dewis staff a diffiniwyd proffiliau rôl cyffredinol ar gyfer graddau academiaidd gwahanol sy'n 'gymharol gyffredinol' â disgwyliadau Dadansoddiad Rôl Addysg Uwch. Diffinnir disgrifiadau swydd cyffredinol (gyda chategoriâu addysgu ac ymchwil ac addysgu ac ysgoloriaethau) a manylebau personol ar gyfer pob swydd academiaidd ac mae hyfforddiant gorfodol i aelodau paneli dewis. Mae'r ddau Ddirprwy Is Ganghellor yn 'monitro holl recriwtio academiaidd o bersbectif QA'. Mae meini prawf ar gyfer penodi Cynorthwy-wyr Addysgu Gradeddig a phroses ddewis yn yr ysgol dan gadeiryddiaeth y Deon. Ar gyfer staff sy'n addysgu ar raglenni cydweithredol, rhaid i safonwr rhaglen UWIC gymeradwyo eu cwricwlwm vita fel un sy'n addas ar gyfer rhaglen wedi'i dilysu.

91 Ers 2006, disgwylir i staff academiaidd newydd heb Gymrodoriaeth Academiaidd AU a heb ddigon o brofiad i ennill y gydnabyddiaeth hon, gwblhau Tystysgrif ôl-Raddio UWIC mewn Addysgu mewn Addysg Uwch (PGCertHE). Mae cwblhau hyn yn llwyddiannus yn rhoi cydnabyddiaeth broffesiynol awtomatig fel Cymrawd Academi Addysg Uwch ac mae'n amod o ddirchafiad i fod yn Ddarlithydd. Cadarnhaodd y staff oedd yn cyfarfod y tîm adolygu bod hyn yn awr yn arfer rheolaidd. Ar gyfer staff mwy sefydledig, gellir cael cydnabyddiaeth oddi wrth yr Academi Addysg Uwch drwy gyflwyno portffolio o dystiolaeth o addysgu ac asesu llwyddiannus.

92 Disgwylir i'r holl staff sy'n newydd i UWIC gymryd rhan yn y rhaglen gynefino gorfforaethol sy'n cynnwys modiwlau hanner diwrnod ar gynefino corfforaethol, cynefino â'r gweithle, hyfforddiant iechyd a diogelwch y gweithle, amrywiaeth yn y gweithle, cynefino academiaidd, technoleg gwybodaeth, gwella profiad myfyrwyr a datblygiad proffesiynol. Mae cwblhau'r rhaglen gynefino gorfforaethol yn un o ofynion y cyfnod prawf. Mae ysgolion ac adrannau hefyd yn cynnal gweithgareddau cynefino lleol fel systemau

mentora a bydi. Mae staff academiaidd newydd fel arfer yn gweithredu cyfnod prawf o 12 mis ac nid yw cwblhau prawf yn llwyddiannus yn amodol ar gwblhau'r PGCertHE.

93 Mae gwerthuso staff yn digwydd drwy'r Cynllun Adolygu Perfformiad Staff blynyddol gorfodol a gyflwynwyd ym mis Awst 2007. Mae'r Cynllun yn ymagwedd strwythuredig at osod amcanion, cytuno ar gynlluniau gweithredu clir, adolygu perfformiad personol, darparu adborth ffurfiol a chanfod anghenion datblygiad personol. Dywedwyd wrth y tîm bod perfformiad gwael staff yn cael ei ganfod drwy Drefn Medrusrwydd UWIC sy'n aml yn esgor o adborth myfyrwyr. Deoniaid Ysgol sy'n gyfrifol am ddelio ag achosion o berfformiad gwael.

94 O safbwynt gwobrwyo staff, roedd UWIC yn mabwysiadu'r Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol ym mis Awst 2006. Mae meini prawf clir ar gyfer dyrchafu, prosesau clir a disgrifiadau swyddi clir ar gyfer uwch swyddi. Mae dyrchafiad o Ddarlithydd i Uwch Ddarlithydd yn gofyn am dystiolaeth o effeithiolrwydd mewn addysgu, gweinyddu ac (i raddau llai) ymchwil a menter; mae dyrchafiad i Ddarllenrwydd yn gofyn am dystiolaeth o effeithiolrwydd mewn menter ymchwil ac (i raddau llai) mewn addysgu a gweinyddu. Daeth y tîm adolygu i gasgliad bod gan UWIC systemau a threfnau priodol ac effeithiol ar gyfer penodi, gwerthuso a gwobrwyo staff academiaidd.

Sicrwydd o ansawdd addysgu drwy gefnogaeth a datblygiad staff

95 Llunnir adroddiad am ddatblygiad staff yn rheolaidd i Fwrdd yr Is Ganghellor ac yn dymhorol i Fwrdd y Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol. Sefydlwyd Panel Datblygu Staff ym mis Awst 2004 'i lywio datblygiad staff yn UWIC ar lefel strategol'. Mae UWIC wedi ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl corfforaethol ers 2005 gan ei ennill ar lefel bloc adeiladu dros y cyfnod ers 2000. Bydd hwn yn cael ei ail asesu yn ystod 2008. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod Bwrdd y Llywodraethwyr yn disgwyl i ysgolion ddyrannu cyfran o'u cyllideb staffio 2007-08 ar gyfer datblygiad staff a bod deoniaid ysgolion yn mynd i fod yn atebol ar ddiwedd y flwyddyn am wario'r dyraniad hwnnw mewn modd a fyddai'n helpu i gyflawni cynllun strategol yr ysgolion.

96 Cyflawnir nifer o weithgareddau datblygu staff UWIC drwy'r Uned Datblygu Staff. Mae'r Uned yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau a oedd yn 2007-08 yn cynnwys gweithdai ar y system ariannu, yr amgylchedd dysgu rhithwir, cynefino corfforaethol, gwella profiad myfyrwyr, recriwtio a dewis a chynllun Adolygu Perfformiad Staff. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad staff. Un thema yng Nghynllun yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu 2006-07 oedd 'gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu cynllun datblygiad proffesiynol parhaus ymarferol ... ac i ddarparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol'. Ym mis Gorffennaf 2007, roedd UWIC yn derbyn achrediad Academi Addysg Uwch am ei gynllun Safonau Proffesiynol ac, yn 2007, roedd 40 y cant o'r staff academiaidd wedi cofrestru gyda'r Academi. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n cyhoeddi taflenni newyddion rheolaidd, yn cynnal cyfres flynyddol o ddarlithoedd ac yn trefnu Cynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol sy'n galluogi Cymrodyr Addysgu UWIC i rannu canfyddiadau eu hymchwil gyda'u cydweithwyr. Hefyd, mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n cyflenwi'r gweithdai datblygu staff sy'n llunio'r PGCertHE. Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n cynnal gweithdai e-ddysgu ac yn cydlynu cyfranogaeth UWIC yn y prosiect e-feincnodi'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth.

97 Mae gan UWIC fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus sydd wedi'i gysylltu i'r broses Adolygu Perfformiad ac sy'n cael ei gydnabod yn ffurfiol gan yr Academi Addysg Uwch. Disgwylir i staff ganfod eu hanghenion datblygiad personol eu hunain drwy werthusiad staff a thrwy gysylltu â chyrff proffesiynol a chymunedau pwnc. Mae Strategaeth Adnoddau Dynol UWIC yn nodi bod disgwyl i'r holl staff gadw portffolio datblygiad personol. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod anghenion datblygiad personol staff rhan amser yn cael eu canfod yn yr un modd â staff llawn amser a'u bod yn delio â hwy yn yr un modd.

98 Mae cyfleoedd datblygu staff arbennig ar gael ar gyfer grwpiau penodol o staff gan gynnwys deoniaid ysgolion, cyfarwyddwyr rhaglenni newydd, safonwyr UWIC ar raglenni cydweithredol a staff sy'n cyflenwi rhaglenni mewn sefydliadau partner. Mae gan staff sy'n cyflenwi rhaglenni mewn partneriaethau cydweithredol fynediad i holl weithgareddau datblygu staff UWIC ynghyd ag i'r rhai yn eu sefydliadau eu hunain. Disgwylir i safonwyr UWIC gynnal ymarferion datblygu staff penodol fel rhan o'u dyletswyddau.

99 Mae system wirfoddol ar gyfer arsylwi ar addysgu cyfoedion (gelwir hwn yn Gynllun Dysgu a Datblygu Cyfoedion) sy'n rhoi cyfle i adlewyrchu ar arferion addysgol, cydnabod cyflawniadau a chanfod anghenion datblygiad personol. Lluniwyd y system i fod yn ddatblygiadol ac nid yn rhan o werthusiad ffurfiol, rheoli dyrchafiad a pherfformiad. Teimlai'r tîm adolygu mai ychydig o'r staff roedden nhw'n eu cyfarfod oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun.

100 Gall staff academiaidd wneud cais am un o nifer bychan (tair yn 2007-08) o wobrau Cymrodoriaeth Addysgu a gynnigir yn flynyddol ac sy'n rhoi hyd at £4,000 dros ddwy flynedd i hybu ymagweddau arloesol ac ar sail tystiolaeth i ddysgu, addysgu ac asesu. Disgwylir i Gymrodorion ddyfeisio a phrofi ymyrraeth addysgu, gwerthuso ei heffeithiolrwydd a rhannu'r canfyddiadau gyda chydweithwyr o fewn a thu hwnt i UWIC gan gynnwys rhoi cyflwyniad yn y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol. Gellir defnyddio cwblhad llwyddiannus y Gymrodoriaeth Addysg fel tystiolaeth i gefnogi ceisiadau am ddyrchafiad a gwneir hyn yn gyson.

101 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan UWIC ymagwedd rhagweithiol a strategol at gefnogi a datblygu staff sy'n effeithiol yn ymarferol ac sydd fel petai'n gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael.

Sicrwydd o ansawdd yr addysgu a gyflenwir drwy ddulliau gwasgaredig ac o bell

102 Nid oes unrhyw raglen UWIC ar hyn o bryd sy'n cael ei chyflenwi drwy ddysgu o bell er bod cymeradwyo a dilysu rhaglenni i raddau helaeth yr un ag ar gyfer rhaglenni traddodiadol gydag ystyriaeth ychwanegol i'r dull o gyflenwi.

103 Mae nifer, os nad y mwyaf, o raglenni, yn UWIC ac mewn sefydliadau partner, yn cynnwys elfennau a gyflenwyd drwy gymysgedd o ddysgu (cyfuniad o wyneb yn wyneb ac e-ddysgu) ac mae darparu mynediad ar lein i ddeunyddiau dysgu wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hysbysir y datblygiad hwn gan Strategaeth e-Ddysgu UWIC gyda chefnogaeth yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu ac mae'n

cael ei weithredu drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod disgwyl i'r holl fodiwlau ar bob rhaglen UWIC fod â safle amgylchedd dysgu rhithwir; mae staff yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n cynnig cymorth ffurfiol ac anffurfiol yn y defnydd o'r amgylchedd dysgu rhithwir ac mae rhai ysgolion yn cynnal prosiectau peilot a luniwyd i ddatblygu ymhellach y cyfleusterau o fewn yr amgylchedd dysgu rhithwir (gan gynnwys gosod meddalwedd llên-ladrad ynddo). Dywedodd y myfyrwyr oedd yn cyfarfod y tîm bod darpariaeth ar lein wedi gwella'n fawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a'i bod yn gyffredinol yn dda iawn (er bod rhai modiwlau o hyd ag ychydig o gynnwys ar yr amgylchedd dysgu rhithwir).

104 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod UWIC yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd dysgu rhithwir a bod ganddo systemau da i gefnogi staff sy'n dymuno gwneud defnydd mwy effeithiol ohono.

Adnoddau cefnogi dysgu

105 Mae gan bob un o bedwar campws UWIC ganolfan ddysgu sy'n cael ei rheoli gan yr Uned Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth. Mae'r canolfannau'n cynnwys llyfrgell, mynediad i dechnoleg gwybodaeth (TG) a man i astudio. Mae dwy o'r canolfannau'n newydd a gellir llogi lle ynddyn nhw. Mae ynddyn nhw fannau dysgu hyblyg, ardaloedd gyda manau dysgu cymdeithasol enwebedig ac ystafelloedd TG mwyaf y sefydliad sy'n cynnig oriau agor estynedig. Ceir adnoddau ychwanegol gan y Cydlynnydd Cefnogaeth Dysgu a chynigir cefnogaeth sgiliau astudio drwy weithdai cwrs y mae'r tiwtoriaid yn gofyn amdany'n nhw; dosbarthiadau gweithdai y gellir eu llogi; a modiwl sgiliau amgylchedd dysgu rhithwir diwygiedig. Mae Cymrodoriaeth Ysgrifennu wedi'i hariannu gan y Gronfa Lenyddiaeth Frenhinol, ar gael i helpu myfyrwyr gyda chefnogaeth ysgrifennu bersonol.

106 Mae gwybodaeth am y canolfannau dysgu ar gael i fyfyrwyr drwy wefan glir a chynhwysfawr sy'n rhoi manylion cyfleusterau sydd ar gael ac amseroedd agor pob campws. Hefyd, mae'r wefan yn cynnig mynediad i gynefino â'r llyfrgelloedd ar lein, pecynnau adnoddau electronig ar gyfer gwahanol bynciau, y catalog, cylchgronau electronig ac adnewyddu benthyciadau ar lein. Lle bynnag y maen nhw wedi'u lleoli fel arfer, gall myfyrwyr, gan gynnwys y rhai sy'n astudio gyda phartneriaid cydweithredol, gael mynediad ffisegol i unrhyw ganolfan ddysgu.

107 Mae staff Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, gan gynnwys llyfrgellwyr pwnc, yn gweithio'n agos gyda staff ysgolion i gyflawni anghenion rhaglen o safbwynt datblygu casgliad a mewnbwn arbenigol, er enghraifft, cynefino ag adnoddau ymchwil wedi'u teilwrio. Gan fod tri o'r pedwar campws yn awr yn lletya ysgolion sengl, mae staff Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth ar y campysau hyn yn gynyddol yn cynnig arbenigeddau perthnasol o safbwynt eu diddordebau proffesiynol ac felly'n gwella'r gefnogaeth a gynigir i ddysgwyr. Cynigir cefnogaeth o'r fath yn aml drwy weithdai a darparu deunyddiau electronig a luniwyd i ddatblygu dysgu a sgiliau adfer gwybodaeth y myfyrwyr eu hunain yn hytrach nag ymateb un i un i ymholiadau myfyrwyr.

108 Mae'r Arolwg Profiad Dysgu Myfyrwyr (gweler uchod, paragraff 77) a'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn cynnwys adrannau ar adnoddau dysgu a defnyddir ymatebion i'r rhain i hysbysu datblygiadau – er enghraifft, roedd gwelliannau wedi'u targedu mewn darpariaeth llyfrgell ar gyfer seicoleg yn deillio o faterion a nodwyd yn

yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. Hefyd, mae staff Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth yn cynnal cyfres o gyfarfodydd gydag ysgolion i'w hysbysu am ddatblygiadau yn y dyfodol ac i gael adborth ar y gwasanaeth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn creu cynlluniau gweithredu a ddefnyddir wedyn i hysbysu agenda'r cyfarfod dilynol. Datblygiad diweddar yw cynnwys y cynrychiolwyr ysgolion a benodwyd yn ddiweddar yn y cyfarfodydd hyn i fynegi barn myfyrwyr (gweler uchod, paragraffau 72 a 76).

Arweiniad, cefnogaeth a goruchwyliaeth academaidd

109 Mae polisi UWIC yn nodi 'bod pob myfyriwr yn cael tiwtor personol... o fewn y mis cyntaf i ddechrau ei raglen. Mae'n rhaid iddo weld y tiwtor hwn mewn tiwtorialau wedi'u trefnu', hefyd 'trefniadau ar gyfer tiwtorialau, gan gynnwys yr amser a'r lleoliad yn cael eu hysbysu i'r myfyrwyr ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal unwaith y tymor o leiaf'. Yn ystod cyfarfodydd gyda myfyrwyr, darganfu'r tîm adolygu nad oedd hyn yn digwydd ym mhob achos. Mae gan yr holl fyfyrwyr ar raglenni sy'n cael eu haddysgu, fynediad i gefnogaeth diwtorial. But, mewn rhai ysgolion, mae hyn yn digwydd pan fydd ei angen a gyda pha diwtor sydd ar gael, yn hytrach na'n rheolaidd gydag unigolyn enwebedig. Er enghraifft, mae'r Ysgol Reolaeth wedi creu ardal mynediad agored sy'n gyfeillgar i fyfyrwyr lle gall myfyrwyr weld tiwtor personol ar rai adegau. Mae tiwtoriaid blwyddyn hefyd yn chwarae rôl wrth gefnogi eu myfyrwyr. Roedd y mwyafrif o fyfyrwyr darpariaeth gydweithredol oedd yn cyfarfod y tîm yn gallu enwi eu tiwtoriaid personol ond eto, yn arbennig lle mae'r criwiau'n fychan, anogwyd myfyrwyr i fynd at y staff sydd ar gael. Yn ymarferol, mae'r amrediad o systemau sydd ar gael yn ymddangos yn effeithiol ac roedd y myfyrwyr yn canmol argaeledd staff. Ond, mae'n bosibl y byddai UWIC yn dymuno ystyried a ddylai weithio tuag at ymagwedd mwy cyson.

110 Mae Llawlyfr Tiwtoriaid Personol ar gael i diwtoriaid. Mae hwn yn rhoi arweiniad ar gyfrifoldebau'r tiwtor a'r myfyriwr. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth fanwl am y gefnogaeth sydd ar gael o fewn Gwasanaethau Myfyrwyr a'r wybodaeth am yr amrediad o wasanaethau cefnogaeth academaidd sydd ar gael gan gynnwys y canolfannau dysgu, cyngor ar sgiliau astudio a'r Gymrodoriaeth Ysgrifennu (gweler uchod, paragraffau 105 a 106).

111 Pan fydd cyfarfodydd tiwtorial ffurfiol wedi'u trefnu, mae'r rhain yn aml wedi'u strwythuro o gwmpas cynllunio datblygiad personol myfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n cynnig rhywfaint o gefnogaeth gyfyngedig ar gyfer cynllunio datblygiad personol drwy gysylltiadau o'i gwefan. Roedd rhai myfyrwyr yn sôn am ddefnyddio ffurflen i groniclo eu profiadau personol. Nid oedd y tîm adolygu'n gweld unrhyw dystiolaeth o ymagwedd cyson i gynllunio datblygiad personol. Fodd bynnag, roedd *Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu* UWIC yn cynnwys yn ei thargedau: archwilio'r trefniadau ar gyfer cynllunio datblygiad personol, gwerthuso boddhad myfyrwyr gyda'r broses a chefnogaeth i diwtoriaid sy'n darparu cynllunio datblygiad personol drwy offeryn recordio ar lein generig.

112 Yn ychwanegol at Lawlyfr Myfyrwyr UWIC, mae myfyrwyr yn cael llawlyfrau rhaglenni a/neu fodiwlau a ddylai gynnwys yr holl fanylion sydd eu hangen i ddeall eu rhaglenni astudio. Er bod safon a chynnwys y llawlyfrau oedd ar gael i'r tîm adolygu yn amrywio (gweler isod, paragraffau 132, 139), roedd pob un yn rhoi manylion

cynnwys y cwrs, y dewis o fodiwlau a dadansoddiad o'r asesu. Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm eu bod wedi gweld gwelliant sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf o safbwynt y wybodaeth roedden nhw'n ei chael am gyrsiau. Roedden nhw'n derbyn gwybodaeth am fodiwlau ymhell cyn yr amser i wneud dewisiadau ac, mewn rhai achosion, gallen nhw ei gweld drwy'r wybodaeth amgylchedd dysgu rhithwir ar bob modiwl ar bob blwyddyn eu rhaglenni sy'n sicrhau gallu cynllunio ymlaen llaw. Mae Ysgol Reolaeth Caerdydd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol a chefnogaeth i'w myfyrwyr lleoliad gan gytuno ar ddeilliannau dysgu a dulliau asesu gyda'r darparwr lleoliad a'r myfyrwr i sicrhau canlyniadau dysgu cadarn.

113 Mae nifer o drefniadau ychwanegol ar gael i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol. Mae cyrsiau ar gael i baratoi myfyrwyr ar gyfer addysg uwch y DU a rhoi cyfle iddyn nhw astudio ar gyfer cymwysterau laith Saesneg cydnabyddedig yn allanol. Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn darparu cefnogaeth laith Saesneg a sgiliau astudio parhaus a gall ysgolion hefyd gynnig help penodol, er enghraifft, mae'r Ysgol Reolaeth wedi penodi tiwtor sy'n siarad Mandarin i gefnogi ei nifer sylweddol o fyfyrwyr o Tsieina.

114 Cynigir cefnogaeth academaidd a goruchwyliol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy dîm o oruchwylwyr sy'n cynnwys cyfarwyddwr astudiaethau ac o leiaf un goruchwyliwr arall. Mae'r sefydliad yn gosod terfyn o chwech ar y nifer o swyddi cyfarwyddwyr astudiaethau y mae pob un aelod o'r staff yn eu dal. Nid oes unrhyw derfyn ar y nifer o dimau goruchwylio y gall un aelod o staff gyfrannu atyn nhw. Mae'r Llawlyfr Myfyrwyr Ymchwil yn cynnig gwybodaeth am hawliau a dyletswyddau myfyrwyr a goruchwylwyr a phob agwedd arall o'r rhaglen gradd ymchwil.

115 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gan UWIC, yn gyffredinol, amrediad priodol o gyfarwyddiadau, cefnogaeth a goruchwyliaeth academaidd heblaw am yr anghysonderau a nodwyd uchod o safbwynt tiwtoriaid personol ac amrywiaeth cynnwys mewn rhai llawlyfrau myfyrwyr.

Cefnogaeth a chyfarwyddyd personol

116 Mae'r Uned Gwasanaethau Myfyrwyr, dan arweiniad Deon y Myfyrwyr, yn cynnig amrediad eang o wasanaethau cefnogaeth a chyfarwyddyd anacademaidd gan gynnwys cyngor gyrfau, cynghori, anabledd, arian myfyrwyr, iechyd, caplaniaeth a meithrinfa ddydd. Gall myfyrwyr fynd at y gwasanaethau hyn yn uniongyrchol neu gallan nhw gael eu cyfeirio gan diwtoriaid personol. Ceir gwybodaeth am yr uned mewn gwefan glir a chynhwysfawr sy'n rhoi manylion yr amrywiol wasanaethau gan gynnwys oriau agor. Mae trefniadau amrywiol ar gael i fonitro perfformiad y gwasanaeth. Mewn rhai achosion, er enghraifft, gyrfau, mae cwestiynau priodol wedi'u cynnwys o fewn yr arolwg boddhad myfyrwyr blynyddol neu gall y gwasanaeth i gyd ffurfio ffocws arbennig i'r arolwg hwn (gweler hefyd paragraff 77). Mewn eraill, fel y gwasanaethau anabledd a'r feithrinfa ddydd, gofynnir am adborth drwy holiaduron rheolaidd i gleientiaid. Hefyd, roedd yr Uned Gwasanaethau Myfyrwyr yn bwnc y cyntaf o adolygiadau adrannol sydd newydd eu cyflwyno (gweler uchod, paragraff 45).

117 Nid yn unig mae'r Gwasanaeth Datblygu Gyrfâu'n rhoi gwybodaeth am yrfâu ond hefyd mae'n cynnig help i dimau rhaglenni i gynnwys cyflogadwyedd, gan gynnwys darparu gweithdai gyrfâu generig ac unigol i mewn i'r cwricwlwm gan ddatblygu

lleoliadau gwaith a chysylltiadau cyflogwyr eraill. Mae hefyd yn casglu ac yn dosbarthu'r data 'Cyrchfannau'r rhai sy'n Gadael' fel y nodwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Roedd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr yn nodi bod myfyrwyr yn gyffredinol yn fodlon gyda'r Gwasanaeth Datblygu Gyrfâu gyda'r mwyafrif yn cael y cyngor a gafwyd ar faterion fel *curricula vitae*, ceisiadau a chwilio am waith yn 'hynod ddefnyddiol'.

118 Cefnogir lles corfforol, meddyliol ac ysbrydol myfyrwyr drwy amrediad o wasanaethau. Mae'r gwasanaeth iechyd yn cynnwys swyddog nyrsio ar bob campws gyda gwasanaeth awr ginio gan Feddyg Teulu lleol. Mae cynghori ar gael ar fformat wyneb yn wyneb ac electronig i helpu i gefnogi myfyrwyr gyda materion iechyd meddwl. Arweinydd y gaplaniaeth yw caplan llawn amser ac mae'n cynnig cefnogaeth ysbrydol anfeirniadol i fyfyrwyr o bob ffydd a'r rhai heb ffydd. Mae'r Caplan yn trefnu nifer o weithgareddau Cristnogol yn uniongyrchol ond gall hefyd roi myfyrwyr mewn cysylltiad â mannau addoli ar gyfer bron bob ffydd yn y ddinas. Mae gan bob campws naill ystafell weddi neu gapel ar gyfer gwasanaethau ac adlewyrchu tawel.

119 Mae'r Gwasanaeth Anabledd yn cydlynu cefnogaeth i fyfyrwyr anabl ar draws y sefydliad gan gynnwys sgrinio myfyrwyr ar gyfer dyslecsia, hyfforddi a chydlynu gweithwyr cefnogi a datblygu a chefnogi staff academiaidd wrth gyflawni gofynion y *Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd*. Mae'n gofyn am adborth ar ei weithgareddau drwy holiaduron rheolaidd.

120 Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn ceisio helpu myfyrwyr i gyllido'n effeithiol ac i sicrhau eu bod yn cael eu hawliau llawn i gefnogaeth ariannol. Hefyd, mae'n gyfrifol am weinyddu Cronfa Ariannol wrth Gefn y sefydliad sy'n cyflwyno gwobrau yn ôl ei ddoethineb i alluogi myfyrwyr mewn caledi ariannol ofnadwy i aros ar eu rhaglen astudiaeth.

121 Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn cynnig cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr o'r tu allan i'r UE ac mae'n trefnu gwasanaethau cyfarfod i'r myfyrwyr hynny, yn darparu cyrsiau Saesneg cyn sesiynau ac yn cynnig cyngor ar faterion teitheb a mewnfudo. Roedd myfyrwyr rhyngwladol oedd yn cyfarfod â'r tîm adolygu yn nodi eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol.

122 Yn gyffredinol, cafodd y tîm adolygu nifer o sylwadau cadarnhaol oddi wrth fyfyrwyr am yr Uned Gwasanaethau Myfyrwyr gyda rhai'n dweud nad oedd bob amser yn cael y clod a haeddai. I gloi, mae'r tîm yn ystyried bod gan UWIC amrediad priodol o wasanaethau cefnogaeth bersonol.

Darpariaeth gydweithredol

123 Mae mwy nag 800 o fyfyrwyr UWIC yn astudio gyda phartneriaid i'r sefydliad mewn darpariaeth gydweithredol (gweler uchod, paragraff 13). Mae mwyafrif y rhain yn y DU, ond mae dros 100 wedi'u lleoli mewn nifer bychan o sefydliadau tramor. Elfen sylweddol yn narpariaeth y DU yw'r Consortiwm FE2HE-UWIC, sy'n cynnwys colegau Addysg Bellach lleol yn cynnig Graddau Sylfaen yn bennaf. Cyflwynwyd papur ar y ddarpariaeth gydweithredol i'w drafod gan y prif bwyllgorau academiaidd yn ystod y misoedd oedd yn arwain at yr adolygiad; mae hyn yn arwydd mai blaenoriaethau datblygu'r sefydliad yw 'ehangu'r ddarpariaeth gydweithredol academiaidd ymhellach trwy gydbwysedd o bartneriaethau cymysg ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a

rhyngwladol'. Mae'r ddogfen hunan-werthuso'n mynegi'r uchelgais i ddyblu nifer y myfyrwyr trwydded rhyngwladol a chynnal twf cyson o fewn y Consortiwm FE2HE dros y 15 mlynedd nesaf.

124 Cynhaliodd UWIC adolygiad sylweddol o'i ddarpariaeth gydweithredol ar ddechrau 2007. Arweiniwyd hwn gan banel o dri uwch swyddog a dau aelod allanol. Paratowyd adroddiad manwl a'i gyflwyno i'r tîm adolygu. Roedd yn cynnwys 33 argymhelliad a ysgogodd gynllun gweithredu sydd ar waith ar hyn o bryd. Un canlyniad i hyn oedd atgyfnerthu'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn ddiweddar. Mae hon yn darparu cymorth i ddelio â phartneriaid cydweithredol, trwy benodi Rheolwr Darpariaeth Gydweithredol â chyfrifoldeb dros y ddarpariaeth gydweithredol. Mae'r gwaith yn parhau i ddiffinio'n fwy eglur union swyddogaethau'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol a'r Uned Systemau Ansawdd, gyda'r Swyddfa'n canolbwyntio ar bynciau gwella.

125 Diffiniodd UWIC raglenni trwyddedig fel rhai y mae wedi'u datblygu, ond a drosglwyddwyd i sefydliad partner. Ystyrir rhaglenni a ddatblygwyd gan y partner, ond a gyflawnir dan awdurdod UWIC, yn rhai a ddilyswyd. Mewn trydydd ffurf ar weithgaredd partneriaeth, mae'r sefydliad yn cynnig trefniadaeth a ddisgrifir fel 'achrediad', lle mae cwrs a reolir gan bartner yn asio gyda rhan o wob'r UWIC, pan fydd myfyrwyr sy'n cwblhau cwrs achrededig yn cael cynnig lle uwch yng ngwobr UWIC, â rhan olaf y cwrs hwyrach wedi'i thrwyddedu i bartner. Enghraifft o'r math hwn o drefniant yw achrediad diploma ôl-raddedig yn Ysgol Fasnach Llundain lle mae myfyrwyr a lwyddodd yn y cam hwn yn symud ymlaen i drydydd semester (traethawd) MBA UWIC, a ddarperir hefyd yn Ysgol Fasnach Llundain.

126 Mae pob rhaglen darpariaeth gydweithredol yn yr ysgol berthnasol sydd â chyfrifoldeb dros ansawdd a safonau ac yn derbyn cefnogaeth gan y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol a'r Uned Systemau Ansawdd. Dywed y ddogfen hunan-werthuso bod rhaglenni cydweithredol yn atebol i'r un drefnau cymeradwyaeth cychwynnol – dilysu, adolygu cyfnodol, monitro blynyddol, diwygiadau bach a mawr a phenodi arholwyr allanol – â phob un o raglenni eraill UWIC. Roedd archwiliad o'r deunydd a ddarparwyd yn dangos bod hyn yn wir am raglenni wedi'u trwyddedu a rhai wedi'u dilysu. Trafodir y sefyllfa o ran y ddarpariaeth achrededig isod (gweler paragraff 134). Yn ogystal â hyn, mae nifer o brosesau sicrhau ansawdd eraill yn bodoli, fel yr ymweliad ymchwiliadol rhagarweiniol (gweler uchod, paragraff 33), darparu Cytundeb Memoranda Rhaglen a Chytundeb Ariannol, a phenodi safonwr UWIC i bob rhaglen.

127 Ar ôl y gymeradwyaeth gychwynnol, cynhelir ymweliad ymchwiliadol rhagarweiniol â'r sefydliad sy'n bartner arfaethedig. Mae'n rhaid i'r panel sy'n ymweld gynnwys, fel lleiafswm, cadeirydd sy'n annibynnol o'r ysgol berthnasol yn y cydweithrediad arfaethedig, aelod o'r tîm rhaglen a/neu faes disgyblaeth, a chofnodwr. Bydd y panel yn cyfarfod gyda rhai o uwch swyddogion y sefydliad sydd am gydweithio, aelodau o'r staff addysgu a staff gweinyddu priodol, a llyfrgellydd a phenaethiaid gwasanaethau gweinyddol perthnasol. Mae set safonol o ddogfennau hefyd yn ofynnol. Amcan yr ymweliad yw canfod a yw'r sefydliad sy'n cydweithredu o statws academaidd priodol ac yn ariannol ddiogel, bod ganddo adnoddau dynol a ffisegol i redeg y rhaglen a bod y trefniant yn gyson â chenhadaeth, cynllun strategol a pholisi darpariaeth gydweithredol UWIC. I sefydliadau sydd eisoes mewn perthynas gydweithredol â

UWIC, gellir hepgor yr ymweliad ymchwiliadol rhagarweiniol pan fydd hynny wedi'i gytuno a'i lofnodi gan aelod o Fwrdd yr Is Ganghellor. Yn dilyn ymweliad ymchwiliadol rhagarweiniol, bydd y broses cymeradwyo rhaglen yn digwydd yn yr un modd â chwrs ar-gampws. Mae'r broses yn cynnwys gwirio curricula vitae staff y partner i sicrhau bod y staff addysgu o safon derbyniol; mae'n rhaid hysbysu'r safonwr am unrhyw newidiadau staff ers cymeradwyo'r rhaglen ac mae'n rhaid i'r safonwr dderbyn y newid.

128 Mae'n ofynnol i bob rhaglen gydweithredol gael Memorandwm Cytundeb Rhaglen (sy'n mynegi dyraniad cyfrifoldebau am faterion academiaidd rhwng UWIC a'r sefydliad sy'n cydweithredu) a Memorandwm Cytundeb Ariannol. Mae'n rhaid i Fwrdd yr Is Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn eu tro gymeradwyo drafft terfynol y ddau hyn cyn cyflwyno cais am ddilysu i'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd. Llofnodir y Memoranda Cytundeb cyn gynted â phosibl ar ôl eu cymeradwyo gan y Bwrdd Ansawdd a Safonau Academiaidd. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod ystod o femoranda drafft addas wedi dod i law'n ddiweddar. Llofnodir memoranda i gwmpasu mwyafrwm o bum mlynedd ac yna ail-drafodir y cytundeb; ond nid oes unrhyw drefn sefydliadol benodol yn gysylltiedig â'r broses hon.

129 Y safonwr yw'r cyswllt allweddol rhwng y partner sy'n cydweithredu ag UWIC. Mae'r safonwyr yn adrodd yn ôl i gyfarwyddwr dysgu ac addysgu yr ysgol ac mae'n ofynnol iddynt ymweld â'r sefydliad sy'n bartner o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i'r ymweliadau hyn gynnwys mynychu'r bwrdd arholi ac o leiaf un pwyllgor rhaglen. Mae'r safonwr yn gweithredu fel mentor a chynghorwr i dîm y rhaglen ac yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiant â phrosesau sicrhau ansawdd UWIC. Mae'n ofynnol iddynt baratoi adroddiad blynyddol i'r Gofrestrfa Academiaidd i'w gyflwyno i'r sefydliad sy'n cydweithredu, i'r cyfarwyddwr dysgu ac addysgu priodol ac, ar yr un pryd, i'r Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol. Mae'r adroddiadau'n ymdrin ag amrediad o bynciau'n berthnasol i ansawdd a safonau'r rhaglen. Roedd y rhai oedd ar gael i'r tîm adolygu, at ei gilydd, yn rhai arfarnol, yn nodi lle'r oedd angen datblygiad pellach. Mae'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol yn paratoi Llawlyfr i Safonwyr ac yn cynnal cyfarfodydd safonwyr o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod amrediad o bynciau fel y *Cod Ymarfer, Adran 2*, a rhannu arfer da.

130 Roedd y myfyrwyr o bartneriaid cydweithredol a gyfarfu'r tîm adolygu yn hynod o gadarnhaol am eu profiad, gan ddweud eu bod yn teimlo'n fyfyrwyr UWIC yn ogystal â'u sefydliadau eu hunain. Mae adnoddau UWIC ar gael iddynt gan gynnwys mynediad at ddeunydd electronig fel e-gylchgronau, a dywedwyd wrth y tîm bod diogelu'r fath fynediad yn rhan o'r broses gymeradwyo.

131 Yn ogystal â'r prosesau sicrhau ansawdd a amlinellwyd uchod, nododd y tîm adolygu amryw o nodweddion y consortiwm FE2HE-UWIC. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd cyson y Pwyllgor Gwaith a Grŵp Llywio'r Consortiwm sy'n cynnwys cadeiryddion llywodraethwyr a phenaethiad colegau'r consortiwm gydag uwch-swyddogion UWIC gan gynnwys yr Is Ganghellor. Mae'r niferoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn uchel a thrafodir amryw o bynciau strategol yn ogystal â phynciau manylach am gynnydd y consortiwm gan gynnwys y posibilrwydd o gaffael ar y cyd. Cynhelir seminar blynyddol i bartneriaid cydweithredol sy'n rhoi cyfle i drafod themâu a phroblemau cyffredin. Roedd y bartneriaeth glos rhwng staff UWIC a staff y sefydliadau sy'n bartneriaid yn amlwg hefyd o ran rhannu addysgu a chyfranogaeth lawn y colegau sy'n bartneriaid

wrth ail-ddilysu rhaglenni a gwneud newidiadau i'r fframwaith achredu. Roedd staff y colegau lleol hefyd yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth datblygu staff yn UWIC. Roedd y tîm yn credu bod creu cymuned o gwmpas FE2HE-UWIC, i gyfoethogi profiad y myfyrwyr AU mewn colegau sy'n bartneriaid, yn nodwedd o arfer da.

132 Mae'r trefniadau ar gyfer cynnal goruchwyliaeth o raglenni unigol a drwyddedwyd neu a ddilyswyd at ei gilydd yn ymddangos yn foddhaol, ond nodwyd rhai problemau gan y tîm adolygu am y wybodaeth a ddarperir gan bartneriaid mewn fformatau copi caled ac ar y we; nodwyd bod angen gwell goruchwyliaeth sefydliadol dros wybodaeth farchnata a gwybodaeth i fyfyrwyr (gweler isod, paragraff 139). Nid yw tystysgrifau gwobrau bob amser yn nodi lleoliad yr astudio, ac, er bod trawsgrifiadau'n gwneud hynny, nid yw tarddiad y rhaglenni wedi'u hasio'n eglur bob amser (gweler uchod, paragraff 66). Yn ogystal â'r broblem a drafodwyd ym mharagraff 66, roedd trawsgrifiadau'n awgrymu bod y ddwy flynedd gyntaf o astudio yn BA Astudiaethau Busnes er mai Diploma Cyngor Sgiliau Dysgu achrededig (neu wedi'i asio) ydoedd mewn gwirionedd. Roedd myfyrwyr yn ymddangos fel petaen nhw wedi drysu gan argaeledd Teilyngdod ac Arbenigrwydd mewn rhaglenni MBA a drwyddedwyd. Mae'r tîm o'r farn bod angen gwell goruchwyliaeth sefydliadol dros y materion hyn (gweler isod, paragraff 133).

133 Mewn gwrthgyferbyniad â'r monitro rhaglenni unigol, ychydig o oruchwyliaeth ffurfiol sydd dros y berthynas gyffredinol â phartneriaid. Trafodir adroddiadau rhaglenni blynyddol ar raglenni cydweithredol mewn pwyllgorau rhaglen, a'u hanfon ymlaen at y Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu perthnasol i'w cynnwys yn y trosolwg ysgol ac, ar yr un adeg, i'r Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol. Nid oes unrhyw drefn eglur yn bodoli i gymharu problemau ar draws rhaglenni sy'n deillio o wahanol ysgolion UWIC ond yn cael eu darparu gan yr un partner, nag ar draws y ddarpariaeth gydweithredol yn ei chyfanrwydd. Yn yr un modd, mae adolygiadau cyfnodol yn canolbwyntio ar raglenni, heb graffu ar y partner yn gyffredinol ar ôl yr ymweliad ymchwiliadol rhagarweiniol. Ar y naill law, gall hyn olygu bod problemau'n cael eu hanwybyddu a gall arwain at anghysondeb rhwng gwahanol raglenni a ddarperir gan yr un partner. Ar y llaw arall, gall olygu gosod baich diangen ar rai sefydliadau sy'n bartneriaid wrth i rai agweddau o'u gwaith fod yn destun adolygiadau lluosog. Mae'r tîm adolygu'n ei ystyried yn ddoeth i UWIC barhau i ddatblygu mecanweithiau sy'n sicrhau goruchwyliaeth sefydliadol effeithiol dros bob agwedd o'r ddarpariaeth gydweithredol a sicrhau cysondeb arfer yn y ddarpariaeth.

134 Yn wahanol i raglenni wedi'u trwyddedu a'u dilysu, nid yw'r ddarpariaeth achrededig yn destun unrhyw fath o adolygiad blynyddol, hyd yn oed pan fydd y darpariadd yn sefydliad masnachol preifat heb unrhyw sicrwydd ansawdd academiaidd ffurfiol i'w raglenni. Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn destun ymarfer mapio ar y dechrau gyda rhaglenni cyffelyb UWIC a bydd unrhyw newidiadau'n arwain at ailfapio. Mae Memoranda Cytundeb amryw o'r trefniannau hyn yn nodi y byddai safonwr yn gysylltiedig â'r trefniant ac y byddai'n paratoi trosolwg yn flynyddol; hefyd, byddai adroddiadau arholwyr allanol ar gael i UWIC. Mae hyn yn ymddangos yn drefn briodol i gadw goruchwyliaeth, ond mewn gwirionedd nid yw wedi digwydd ac roedd uwch swyddogion UWIC yn anymwybodol o'r cymal hwn yn y Memoranda. Mae'r tîm adolygu'n ei ystyried yn ddoeth i'r sefydliad adolygu a diwygio'r prosesau sy'n bodoli i sicrhau ansawdd a safonau parhaol darpariaeth sy'n achrededig gan UWIC.

Adran 3: Ymchwiliadau'r adolygiad: gwybodaeth gyhoeddedig

Profiad myfyrwyr o wybodaeth gyhoeddedig a gwybodaeth arall sydd ar gael iddynt

135 Mae UWIC yn darparu amrywiaeth o wybodaeth i ddarpar fyfyrwyr ac i fyfyrwyr presennol, ar y campws ac oddi ar y campws. Caiff darpar fyfyrwyr fynediad at y deunydd hwn trwy'r wefan neu drwy brosbectysau a gyhoeddir. Mae'r wybodaeth a roddir i fyfyrwyr cyn cyrraedd yn cynnwys prosbectysau (wedi'u hargraffu ac ar-lein); pecynnau ymuno sy'n cynnwys proffil cyflawn o'r rhaglen a diwrnodau agored. Pan fyddan nhw'n cofrestru, caiff myfyrwyr fynediad at fewnrwyd UWIC a'r amgylchedd dysgu rhithwir lle ceir gwybodaeth am y sefydliad, gan gynnwys deunydd 'cwestiwn ac ateb' defnyddiol a fersiwn Fformat Dogfen Symudol o Lawlyfr Myfyrwyr cyfredol UWIC. Caiff myfyrwyr ar raglenni cydweithredol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid ddeunydd argraffedig perthnasol a mynediad at amgylchedd dysgu rhithwir UWIC.

136 Roedd cyflwyniad ysgrifenedig myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am gywirdeb, cyflawnrwydd a dibynadwyedd y wybodaeth mae UWIC yn ei chyhoeddi amdano ei hun, yn seiliedig ar arolwg ar-lein a luniwyd yn arbennig ac ar grwpiau ffocws. Roedd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm adolygu (gan gynnwys myfyrwyr ar raglenni cydweithredol) yn cadarnhau bod y wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt cyn cyrraedd ac yn ystod eu rhaglen yn gywir a defnyddiol, a'u bod yn gwybod lle i gael gwybodaeth am drefnau apeladau a chwynion petai angen. Cadarnhaodd myfyrwyr hefyd fod gan bob modiwl lawlyfr cysylltiol sy'n cynnwys manylion tasgau gwaith cwrs, dyddiadau cwblhau a meini prawf marcio; Cyhoeddir y rhan fwyaf o lawlyfrau modiwl yn yr amgylchedd dysgu rhithwir. I gloi, gwelodd y tîm adolygu enghreifftiau o wybodaeth argraffedig ac ar y we oedd wedi'u gosod yn dda, yn eglur ac yn berthnasol.

Dibynadwyedd, cywirdeb a chyflawnrwydd gwybodaeth gyhoeddedig

137 Yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg a gofynion statudol, mae UWIC yn cyhoeddi dogfennau allweddol fel prosbectysau, gwefan, Llawlyfr Myfyrwyr a llawlyfrau rhaglenni yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

138 Mae'r Llawlyfr Systemau Siarter yn diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur ar gyfer pob cyhoeddiad, gan gynnwys prosbectysau, gwybodaeth am ysgolion a rhaglenni, llawlyfrau myfyrwyr, llawlyfrau rhaglenni, cynefino myfyrwyr, a chymeradwyo sylwebaeth a osodir yn nata gwefan Unistats. Y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata sy'n gyfrifol am awdurdodi prosbectysau a gwefan UWIC.

139 Darganfu'r tîm adolygu ddwy enghraifft o ddeunydd a gyhoeddwyd gan sefydliadau cydweithredol sy'n bartneriaid nad oedd yn gwbl gywir – gwefan Ysgol Fasnach Llundain. Nid oedd yn eglur ynglŷn â pha rannau o'r rhaglen oedd yn wobrau'r Cyngor Sgiliau Dysgu a'r rhai oedd yn wobrau UWIC; a Choleg Dimitris Perrotis, Gwlad Groeg, Llawlyfr Myfyrwyr 2007-2008, oedd yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol anghywir am y broses apelio (gweler uchod, paragraff 132). Dywedodd uwch swyddogion wrth y tîm adolygu fod deunydd a gyhoeddir gan sefydliadau sy'n

bartneriaid yn cael ei gymeradwyo gan y Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol, ond derbyniwyd nad oedd y broses hon yn gweithredu'n briodol ar hyn o bryd.

140 O ganlyniad i edrych ar enghreifftiau o wybodaeth gyhoeddedig, ac o dystiolaeth a glyw-wyd gan fyfyrwyr, barn y tîm adolygu oedd: yn gyffredinol, gellid ymddiried yng nghywirdeb, gonestrwydd, cyflawnrwydd a didwylledd y wybodaeth a gyhoeddir mewn amrywiol fformatau gan UWIC, ond bod angen gwella cywirdeb ychydig o'r deunydd a gyhoeddir gan sefydliadau sy'n bartneriaid.

Casgliadau

Effeithlonrwydd trefnau sefydliadol i sicrhau ansawdd rhaglenni

141 Mae gan UWIC amrywiaeth o systemau a phrosesau wedi'u llunio i sicrhau ansawdd academaidd gwobrau. Cyfrifoldeb ffurfiol y Bwrdd Academaidd yw ansawdd a safonau, sy'n datganoli goruchwyliaeth holl weithgaredd sicrhau ansawdd UWIC i'w is-fyrddau. Y ddau fwrdd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros ddysgu ac addysgu yw'r Bwrdd Ansawdd a Safonau Academaidd a'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu, a chyfrifoldeb y Bwrdd Ymchwil a Menter yw ymchwil a graddau ymchwil. Yn cyfateb i'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu a'r Bwrdd Ymchwil a Menter o fewn yr ysgolion mae Pwyllgor Dysgu ac Addysgu a Phwyllgor Ymchwil a Menter.

142 Mae cyfarwyddwyr dysgu ac addysgu'r ysgolion yn gyfrifol am ansawdd a safonau mewn rhaglenni a addysgir, a'r Cyfarwyddwr Ymchwil sy'n gyfrifol am ansawdd a safonau mewn graddau ymchwil. Tîm Rheoli a Chynllunio'r ysgol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ansawdd a safonau o fewn yr ysgol.

143 Mae UWIC yn ystyried ei systemau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni ar y dechrau'n hanfodol i sicrhau ansawdd. Mae gan ddeoniaid yr ysgolion a'u cyfarwyddwyr dysgu ac addysgu gyfrifoldeb dros ddatblygu a chynllunio rhaglenni newydd. Caiff pob cynnig am raglen newydd sy'n arwain at wobwr eu gwerthuso gan y Panel Cymeradwyo Dechreuol cyn symud ymlaen i ddilysu rhaglenni cartref ac at ymweliad ymchwiliadol cychwynnol rhaglenni cydweithredol.

144 Mae adolygiad blynyddol o raglenni'n ganolog i brosesau sicrhau ansawdd UWIC. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu fod ansawdd yr adolygiadau hyn yn amrywio, heb fod bob amser yn cael ystyriaeth na chymeradwyaeth gan bwyllgorau rhaglen. Mae'r tîm adolygu yn ystyried y byddai'n ddoeth i'r sefydliad adolygu a diwygio'r broses o fonitro rhaglenni'n flynyddol i sicrhau ei bod yn gyson gadarn ac effeithlon.

145 Yn gyffredinol gwelwyd bod prosesau cymeradwyo, monitro ac adolygu mewnol UWIC yn cynnwys digon o elfennau allanol i roi hygyrdded i'r prosesau hynny. Fodd bynnag, neges a gafwyd yn gyson oedd mai ychydig o adborth a chynngor, yn ffurfiol o leiaf, a geisiwyd oddi wrth gyflogwyr a graddedigion. Mae'r tîm adolygu felly'n ei ystyried yn ddymunol i'r sefydliad ddatblygu ymagwedd mwy cyson tuag at gynnwys graddedigion a chyflogwyr yn ffurfiol wrth ddylunio, dilysu ac adolygu rhaglenni.

146 O ran sicrhau ansawdd y ddarpariaeth gydweithredol, daeth y Tîm Adolygu i'r casgliad bod amryw o nodweddion arfer da yn y Consortiwm FE2HE-UWIC. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd cyson y Pwyllgor Gweithredol a Grŵp Llywio'r Consortiwm, sy'n cynnwys cadeiryddion llywodraethwyr a phenaethiaid coleg o golegau'r consortiwm ac uwch swyddogion UWIC, gan gynnwys yr Is-Ganghellor. Mewn rhannau eraill o'r ddarpariaeth gydweithredol, roedd y tîm adolygu'n ei ystyried yn ddoeth i UWIC ddelio â hwy, yn arbennig rheolaeth yr oruchwyliaeth sefydliadol ffurfiol dros drefniadau partneriaeth a'r prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd parhaol a'r safonau darpariaeth a achredwyd gan UWIC.

Effeithlonrwydd trefnau sefydliadol ar gyfer sicrhau safon gwobrau

147 Mae safonau gwobrau wedi'u gosod fel rhan o'r broses ddylunio a chymeradwyo. Ym marn y Tîm Adolygu, mae hyn at ei gilydd yn effeithlon, ond byddai ychwanegu at yr elfen allanol wrth gymeradwyo, yn enwedig gan gyflogwyr, a sicrhau bod yr holl fodiwlau a allai fod yn rhan o'r cyrsiau sy'n arwain at wob, yn cael eu craffu gan bobl allanol, yn fuddiol.

148 Caiff rheoliadau dyfarnu ar gyfer rhaglenni a addysgir eu cyflwyno ar dair lefel – sefydliadol, generig neu'r math o raglen (er enghraifft, Gradd Sylfaen neu radd gyntaf fodwlar) a rhaglenni unigol. Mae rheoliadau generig yn caniatáu lle i amrywio, er enghraifft, yn nifer yr ail-sefyll a ganiateir ac mae hyn yn arwain at ryw gymaint o anghysondeb, er bod y sefydliad yn gweithio'n ddyfal i geisio lleihau hyn.

149 Cafodd y tîm adolygu brofiadau amrywiol o ran prydlondeb yr adborth. Mewn rhai achosion, roedd y gwaith wedi'i ddychwelyd yn rhy ddiweddar i fyfyrwyr elwa oddi wrth adborth cyn cyflwyno'u tasg nesaf. Roedd rhai myfyrwyr yn gweld ansawdd yr adborth yn broblem. Mae'r tîm adolygu yn ei ystyried yn ddoeth i UWIC sicrhau bod adborth ar asesiadau'n cael ei gyflwyno i fyfyrwyr mewn modd eglur, cyson a phrydlon.

150 Mae arholwyr allanol yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro safonau parhaol. Roedd y tîm adolygu'n ystyried, at ei gilydd, bod y trefnau ar gyfer eu penodi a'u cynefino'n rhai priodol. Mae ystod o brosesau'n bodoli ar lefel rhaglen, ysgol a sefydliad i ymateb i sylwadau arholwyr allanol ac i fonitro'r gweithredu sy'n deillio o'r sylwadau hyn; fodd bynnag, nid yw'n gwbl eglur sut mae'r prosesau hyn yn integreiddio. Yn benodol, gellir hybu mwy o ddadansoddi a gwerthuso ar lefel ysgol, a gallai'r sefydliad yn gyffredinol elwa o ddefnyddio arfer da a nodir gan arholwyr allanol mewn rhaglenni unigol, fel rhan o'i strategaeth wella.

151 Nodwedd arall o'r oruchwyliaeth safonau barhaus yw'r broses fonitro flynyddol. Darperir ystadegau ar fynediad, cadw, cynnydd a gwobrau i raglenni fel rhan o hyn. Fodd bynnag, mae rhai problemau'n codi o ran cywirdeb y ffigyrau hyn ac, ar hyn o bryd, nid oes modd gwahanu canlyniadau cyfunedig yn ôl dangosyddion fel rhyw, ethnigrwydd ac anabled. Mae manylion system wybodaeth i reolwyr newydd wrthi'n cael eu llunio a chynghorir y sefydliad i roi blaenoriaeth i ddatblygu hyn a phrosesau cysylltiol i hyrwyddo monitro data myfyrwyr yn gywir ac yn brydlon ar bob lefel.

152 Mae'r ddarpariaeth gydweithredol, at ei gilydd, yn atebol i'r un prosesau ar gyfer sefydlu a monitro safonau â'r rhai a weithredir ar-gampws. Gwneir eithriad i hyn gyda rhaglenni cydweithredol sy'n 'achrededig' i asio â darpariaethau eraill UWIC. Cynhelir ymarfer mapio pan gaiff darpariaeth fel hon ei chymeradwyo ar y dechrau ond nid oes proses fonitro barhaus. Felly, argymhellir bod y sefydliad yn adolygu ac yn diwygio'r prosesau sy'n sicrhau ansawdd parhaol a safonau darpariaeth achrededig.

Effeithlonrwydd trefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu

153 Mae'r Uned Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth yn rhoi gwasanaeth cynhwysfawr sy'n cwmpasu adnoddau llyfrgell, TG ac astudio ar bob un o bedwar campws y sefydliad. Yn gynyddol, mae myfyrwyr yn derbyn cymorth buddiol gan adnoddau arlein o ran e-gylchgronau a pheycynnau adnoddau penodol i bynciau arbennig, sydd ar gael i

fyfyrwyr ar-gampws a'r rhai mewn sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae'r uned yn gwneud defnydd o sawl ffynhonnell adborth am ei weithgareddau gan gynnwys cyfarfodydd adolygu cyson gyda'r ysgolion. Mae'r newid mewn diwylliant, gan symud i ffwrdd oddi wrth ymateb un-i-un i ymholiadau myfyrwyr a cheisio, yn hytrach, datblygu sgiliau dysgu ac adfer gwybodaeth myfyrwyr eu hunain, yn arddangos defnydd effeithiol o adnoddau.

154 Mae amgylchedd dysgu rhithwir yn bodoli ac yn cael derbyniad da iawn gan fyfyrwyr. Mae'n cynnig ardal 'cwestiynau cyffredin' a modiwl sgiliau astudio yn ogystal â deunydd sy'n benodol ar gyfer modiwlau pob cwrs. Hefyd darperir cymorth sgiliau astudio trwy weithdai mewn-gyrsiol a gweithdai cwbl agored.

155 Mae ystod o systemau'n bodoli i ddarparu gwasanaeth tiwtor personol i fyfyrwyr. O ganlyniad, mae pob myfyriwr yn cael mynediad at gymorth effeithlon. Hwyrach na fydd hyn ar ffurf cyfarfodydd cyson gyda thiwtor enwebedig fel a ddisgrifir yn y ddogfen hunanwerthusiad. Estynnir cymorth ar wneud penderfyniadau'n benodol am raglenni trwy wybodaeth mewn llawlyfrau modiwl a rhaglen, ac mae adnoddau ychwanegol ar gael i gynorthwyo myfyrwyr tramor. Darperir cymorth academiaidd i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gan y tîm goruchwyllo, sy'n cynnwys o leiaf dau aelod.

156 Mae systemau priodol yn bodoli ar gyfer penodi, gwerthuso a gwobrwyo staff academiaidd ac ymagwedd ragweithiol a strategol i'w cynorthwyo a'u datblygu, gan wneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael.

Sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r Seilwaith Academiaidd?

157 Gorchwyl y Grŵp Adolygu Sefydliadol yw gwirio rheoliadau academiaidd UWIC, a pholisiau a threfnau i gydymffurfio ag adrannau o'r *Cod Ymarfer* wrth i'r rhain gael eu hysgrifennu neu eu newid. Pan na fydd cydymffurfiant, argymhellir y newidiadau angenrheidiol trwy'r Bwrdd Safonau Academiaidd a'r Bwrdd Academiaidd. Cafwyd tystiolaeth o effeithlonrwydd y dull hwn o weithredu mewn nifer o enghreifftiau o achosion lle'r oedd ystyriaeth o adrannau penodol o'r *Cod* wedi arwain at newid.

158 Mae rhaglenni a addysgir yn mynnu manylebau rhaglen ac mae'r pro forma a ddefnyddir ar gyfer hyn yn cynnwys cyfeiriad at ddatganiadau meincnodau perthnasol pwnc, gyda'r cyfarwyddyd y dylid defnyddio'r deilliannau ar gyfer FHEQ, meincnodau pwnc ac unrhyw ofynion gan gyrff proffesiynol. Pan fydd rhaglen arfaethedig yn dymuno herio'r meincnod pwnc, dylid gwneud achos gerbron y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academiaidd a'r Bwrdd Academiaidd. Roedd y tîm adolygu'n bryderus – mewn un achos lle gwnaed achos o'r fath, y ddadl a dderbyniwyd oedd un nad oedd yn bennaf yn un academiaidd.

159 Mae'r sefydliad yn cynnig nifer sylweddol o Raddau Sylfaen, yn enwedig trwy'r colegau sy'n bartneriaid. Dylai syniadau am ddarpariaeth newydd o'r math hwn ystyried y *Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen*; bydd rhaglenni presennol yn cydymffurfio â hyn pan fyddan nhw'n cael eu hadolygu.

160 Er bod y tîm adolygu yn pryderu am y diffyg cyfiawnhad academiaidd am fethiant y sefydliad i fapio rhaglen arbennig yn erbyn meini prawf y meincnod perthnasol, roedd yn credu, at ei gilydd, bod y sefydliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r Seilwaith Academiaidd.

Defnyddio'r ddogfen hunan-werthusiad (SED) fel darlun o allu'r sefydliad i ystyried ei gryfderau a'i gyfyngiadau ei hun, a gweithredu ar y rhain er mwyn gwella ansawdd a safonau

161 Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n rhoi darlun eithaf cynhwysfawr o'r sefydliad i'r tîm adolygu. Mewn rhai adrannau, roedd yn elwa o adlewyrchu priodol ond nid oedd bob amser yn gywir wrth ddisgrifio rhai arferion yr oedd y tîm yn gweld oedd yn wahanol i'r rhai a amlinellwyd yn y ddogfen hunan-werthuso a'r Llawlyfr Academaidd. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn oedd y system tiwtor personol a'r monitro rhaglenni blynyddol.

Sylwadau ar fwriadau'r sefydliad i wella ansawdd a safonau

162 Mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu'n chwarae rhan allweddol o ran hybu gwelliant mewn dysgu ac addysgu. Gwelodd y tîm adolygu fod y pwyslais ar yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu fel cyfrwng i gynorthwyo ysgolion i gyflawni gwelliannau ansawdd, yn gadarnhaol iawn ond daeth i sylweddoli hefyd bod sefydlu'r gweithgaredd hwn yn ddwfn mewn ysgolion yn hanfodol. Wrth i berthynas yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu â'r ysgolion ddod yn fwy cynhyrchiol, teimlai'r tîm adolygu ei bod yn bwysig i'r Uned egluro'i strwythur ac atgyfnerthu'i swyddogaeth gefnogol, gan gynnwys ysgolion yn ei holl weithgareddau. Yn yr un modd, ystyriwyd swyddogaeth cyfarwyddwyr dysgu ac addysgu'r ysgolion yn ganolog i berthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgolion a'r Uned ac i'r agenda wella ehangach.

163 Mae'r Cynllun Gweithredu i gyflawni'r Strategaeth Gwella Ansawdd yn cynnwys gweithgareddau gwella cliriach fel y cynllun Cymrodoriaeth Addysgu, sy'n cefnogi ystod eang o staff i gyflawni prosiectau dysgu, addysgu ac asesu ar sail tystiolaeth; prosiectau meincnodi allanol; a strategaethau i gysylltu addysgu gydag ymchwil. Fodd bynnag, mae agweddau eraill o'r cynllun yn anelu at gyflawni lefelau dadansoddi data y dylid eu disgwyl fel mater o drefn.

164 Nododd y tîm adolygu fod uwch swyddogion yn dod at ei gilydd ar draws y sefydliad trwy amrediad o is-grwpiau a gweithgorau fel cyfarfod 'dibriffio' blynyddol holl gadeiryddion y byrddau arholi. Teimlwyd felly mai un nodwedd o arfer da oedd y trefniadau i ddod ag uwch staff at ei gilydd i hyrwyddo cysondeb ac i gyfrannu at sefydlu gwelliannau.

Pa mor Ddibynadwy yw'r Wybodaeth

165 Mae gwybodaeth argraffedig ar gael yn y Saesneg ac yn y Gymraeg ac mae'n gywir ac yn ddefnyddiol i ddarpar fyfyrwyr ac i fyfyrwyr presennol. Teimlai'r tîm adolygu y gallai fod yn hyderus am gywirdeb, gonestrwydd, cyflawnrwydd a didwylledd y wybodaeth a gyhoeddir mewn gwahanol fformatau gan UWIC, ond bod angen gwella cywirdeb ychydig o'r deunydd a gyhoeddir gan sefydliadau sy'n bartneriaid.

Nodweddion o arfer da

166 Nodwyd y nodweddion o arfer da canlynol:

- y trefniadau i dynnu uwch staff at ei gilydd ar draws y sefydliad i hyrwyddo cysondeb ac i gyfrannu at sefydlogi gwelliant (paragraff 32)
- cyflwyno a datblygu system effeithiol o gynrychiolwyr ysgolion i wella cyfathrebu gyda myfyrwyr a'u cynnwys (paragraffau 72 and 76)
- creu cymuned o gwmpas FE2HE-UWIC i gyfoethogi profiad myfyrwyr AU mewn colegau sy'n bartneriaid (paragraff 130).

Argymhellion ar gyfer gweithredu

167 Argymhellion gweithredu y mae'r tîm adolygu'n credu a fyddai'n fuddiol:

- adolygu a diwygio'r broses o fonitro rhaglenni'n flynyddol i sicrhau ei bod yn gyson gadarn ac effeithiol (paragraffau 38 i 42)
- sicrhau bod yr adborth am asesiadau yn cael ei gyflwyno'n glir, yn gyson ac yn brydlon i fyfyrwyr (paragraff 54)
- rhoi blaenoriaeth i ddatblygu systemau gwybodaeth i reolwyr newydd a phrosesau cysylltiol i hwyluso monitro cywir a phrydlon ar bob lefel o ddata am fyfyrwyr (paragraff 65)
- parhau i ddatblygu trefniadau i sicrhau goruchwyliaeth sefydliadol ac arfer cyson ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth gydweithredol (paragraff 133)
- adolygu a diwygio'r prosesau i sicrhau ansawdd a safonau parhaol y ddarpariaeth a achredir gan UWIC (paragraff 134).

168 Argymhellion gweithredu y mae'r tîm adolygu'n credu a fyddai'n fuddiol:

- datblygu ymagweddau mwy cyson tuag at gynnwys yn ffurfiol graddedigion a chyflogwyr wrth ddylunio, dilysu ac adolygu rhaglenni (paragraff 46).

Atodiad

Ymateb Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd i adroddiad yr adolygiad sefydliadol

Yn UWIC, rhown groeso cynnes i ganlyniad positif yr adolygiad a'r nodweddion o arfer da a nodwyd. Gwerthfawrogwn yn fawr yr hyder a fynegwyd yn ansawdd ein rhaglenni a safonau academaidd ein gwobrau. Rhown groeso cyffelyb i'r argymhellion, ac ymfalchiwn fod y rhain yn ymwneud â manau yr ydym eisoes wedi'u nodi fel rhai sydd ag angen gweithredu ymhellach arnynt. Roedd y broses adolygu sefydliadol yn un agored, teg ac adeiladol ac mae'r adroddiad yn gefnogol i'r cyfeiriad y mae UWIC wedi'i ddewis i symud ymlaen â'n hymrwymiad dwfn i gyfoethogi profiadau ein myfyrwyr.

Ymlawenhawn fod yr adolygwyr yn rhoi sylw manwl i'r manau canlynol sydd ag arfer da, gan ategu ein hymagwedd strwythuredig tuag at:

- drefniadau i hybu cysondeb ar draws UWIC, a chyfrannu at sefydlogi gwelliant
- system effeithiol o gynrychiolaeth i fyfyrwyr ysgolion, yn ogystal â chynrychiolaeth ar lefel rhaglenni
- greu cymuned mewn perthynas â'r Consortiwm FE2HE i gyfoethogi profiad myfyrwyr addysg uwch mewn colegau sy'n bartneriaid.

Mae nodi'r nodweddion o arfer da hyn, ynghyd â'r ystod o sylwadau cadarnhaol a gynhwyswyd yng nghorff yr adroddiad, yn rhoi hwb mawr i ni barhau i gyfoethogi'n darpariaeth.

Yn yr un modd, rydym yn derbyn y meysydd a nodwyd gan y tîm adolygu yn eu hargymhellion cynghorol a dymunol, ac rydym eisoes yn symud ymlaen i wella ymhellach ein systemau presennol a'n trefnau ar gyfer cadw rheolaeth effeithlon ac effeithiol ar ansawdd a safonau. Mae cynllun gweithredu wrthi'n cael ei baratoi i ddelio â'r rhain, gan ddefnyddio'r manylion ychwanegol defnyddiol a geir yn yr adroddiad. Caiff cynnydd y gweithredu ei fonitro'n gyson gan ein Grŵp Gweithredu SA, a chyflwynir adroddiadau prydlon i'r byrddau ffurfiol perthnasol.

Rhoddir sylw arbennig i barhau i fonitro a sicrhau cysondeb arfer ar draws UWIC o ran darparu adborth i fyfyrwyr am eu hasesiadau, y monitro cyson o ddarpariaeth achrededig i gadarnhau bod yr adnoddau a gymeradwywyd yn y cyfnod achredu yn dal i fod ar gael, gan sicrhau arfer cyson ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth gydweithredol; hefyd rhoi blaenoriaeth i ddatblygu systemau gwybodaeth i reolwyr newydd o ran cynhyrchu'r data a dadansoddi canlynol, yn ogystal â gweithredu'n adeiladol lle awgrymwyd hyn. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r broses Adroddiad Rhaglenni Blyneddol (APR) a ddisgrifir yn ein dogfen hunan-asesu fel 'conglfaen proses sicrhau ansawdd UWIC'. Mae'n wiriad ansawdd hunan-feirniadol, myfyrgar ar ddata penodol i raglenni sy'n ymwneud â dangosyddion perfformiad allweddol y mae gwybodaeth gadarn gan reolwyr yn hanfodol iddynt. Roedd Gweithgor APR eisoes wedi'i sefydlu ar adeg yr adolygiad. Sefydlwyd hwn i ystyried newidiadau yn y dull o gasglu data, ac i adolygu ffurf yr adroddiad er mwyn iddo fod yn gwbl addas i'w bwrpas, gan gynnwys rhoi gwybodaeth i sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae mwy o waith yn dal i gael ei wneud i

symleiddio'r broses, ac mae sylwadau adeiladol adroddiad yr adolygiad yn gosod agenda eglur a manwl ar gyfer y gwaith ar waith gan y gweithgor.

I gloi, byddwn bob amser yn ymdrechu i wella ac ystyriwn yr adolygiad sefydliadol fel arf ychwanegol pwysig i wella ein darpariaeth. Rydym eisoes wedi gwneud llawer o'r gwaith i ddelio ag argymhellion yr adroddiad, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y nodweddion o arfer da a nodwyd ac yn eu hatgyfnerthu.